

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

SYLWCH: Fe fydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu ar ôl i'r cyfarfod orffen, a hynny drwy gyfrwng safle rhyngwyd y Cyngor. Hefyd gallai'r lluniau a'r sain a recordir cael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi yn y Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfan neu ran o'r cyfarfod yn cael ei ffilmio ai peidio.

Yn gyffredinol ni fydd y rhannau lle mae'r cyhoedd yn eistedd yn cael eu ffilmio. Er hynny, trwy ddod i mewn i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r man lle mae seddi'r cyhoedd, mae'r cyhoedd yn cytuno y gallant gael eu ffilmio ac o bosibl i'r lluniau a'r sain a gaiff eu recordio cael eu defnyddio, fel y nodir uchod. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, cysylltwch â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd.

28 Chwefror 2023

Annwyl Syr/Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Cabinet yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo-gynadledda Dydd Mawrth, 7 Mawrth 2023 am 10.00am i drafod y materion canlynol:

- 1. Ymddiheuriadau**
- 2. Materion Personol**
- 3. Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**
- 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 3 - 8)**
- 5. Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd**
- 6. Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**
- 7. Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda**
- 8. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch Cynllun Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 9 - 76)**
- 9. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch Grant Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 77 - 136)**

10. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ynghylch Trefniadau Tâl y Crwner Diwygiedig ar gyfer 2022/23 a 2023/24
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 137 - 142)**
11. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ynghylch Ffioedd Trefnwyr Angladdau Gwasanaeth y Crwner
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 143 - 154)**
12. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrf Llywodraethol
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 155 - 156)**
13. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 157 - 172)**
14. **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Cyllideb Refeniw Reoladwy 2022/23 - Perfformiad Ariannol
ER GWYBODAETH (Tudalennau 173 - 198)**
15. **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf Chwarter 3
ER GWYBODAETH (Tudalennau 199 - 208)**
16. **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Adroddiad Hanner Blwyddyn ar Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a gweithgarwch Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (2022/2023)
ER GWYBODAETH (Tudalennau 209 - 216)**
17. **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brysgan y Cabinet**

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir



Miss Lowri Edwards

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

**At: Arweinydd y Cyngor ac Aelodau'r Cabinet
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth**

Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y Cabinet** a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Mawrth, 14 Chwefror 2023**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 16 Chwefror 2023. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Iau, 23 Chwefror 2023 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 24 Chwefror 2023.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Ifan Davies, Elizabeth Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Geraint Hughes, Hugh Hughes, Chris James, Ceris Jones, Gareth Lloyd, Ann Bowen Morgan a Caryl Roberts.

(10.00am - 1.18pm)

143 Ymddiheuriadau

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

144 Materion Personol

Cydymdeimlwyd â theulu Dr Jeff Jones, cyn Gyfarwyddwr Cynorthwyol Cyngor Sir Ceredigion sydd wedi marw'n ddiweddar.

145 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

- i. Datganodd y Cynghorydd Clive Davies fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 150.
- ii. Datganodd y Cynghorydd Gareth Davies fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 151.

146 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2023 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

147 Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd

Dim.

148 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Dim.

149 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda

Dim.

150 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Ffioedd a Chostau gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

1. Cymeradwyo'r Ffioedd a'r Costau i fod mewn grym o 01/04/23 (ac eithrio Prydau Ysgol), fel yr amlinellir yn:
 - a) Atodiad 1
 - b) Atodiad 2
 - c) Atodiad 3 (ac eithrio'r tâl mynediad arfaethedig o dan Ffioedd a Chostau'r Gwasanaeth Amgueddfeydd, a dynnwyd yn ôl)
 - d) Atodiad 4ac eithrio'r eitem ganlynol ymhellach:
 - Bod Ffioedd a Chostau arfaethedig y Meysydd Parcio yn Nhregaron a Llandysul yn cael eu dileu o Atodiad 3, fel na fyddai dim costau am Barcio Ceir yn y trefi hynny am gyfnod pellach o 12 mis yn ystod 2023/24.
2. Cymeradwyo'r newid o ran Ffioedd a Chostau Prydau Ysgol, fel yr amlinellir yn Atodiad 2, i fod mewn grym o 01/09/23.
3. Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, i gynyddu pris Prydau Ysgol i gyd-fynd ag unrhyw gynydd a wneir yn dilyn yr adolygiad o gyfradd Llywodraeth Cymru fesul uned, gan gyflwyno unrhyw newid ar ôl i'r cynnig o ran Prydau Ysgol am ddim gael ei ymestyn yn llawn i bob blwyddyn Ysgol Gynradd.
4. Dirprwyo awdurdod yn barhaus i Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar, mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet â chyfrifoldeb am y Canolfannau Hamdden a Llesiant, i amrywio'r Ffioedd a Chostau ar gyfer y Canolfannau Llesiant i redeg cynigion hyrwyddo tymor byr/â chyfyngiad amser.
5. Nodi'r Adborth gan bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Gyllideb a chytuno ar y newidiadau a argymhellir gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ynglŷn â Ffioedd a Chostau.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Er mwyn ystyried y Ffioedd a'r Costau yn rhan o broses y Cyngor ar gyfer pennu'r gyllideb.

151 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Cyllideb 2023/24 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

1. Argymhell i'r Cyngor Llawn yn dilyn ystyried argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ynghylch parhau i Barcio Ceir am Ddim yn Llandysul a Thregaron, y dylai'r gost bosibl o £40k sy'n gysylltiedig â hyn gael ei hariannu o'r Ddarpariaeth o £400k a neilltuwyd ar gyfer risgiau o ran Chwyddiant Cyflogau ac Ynni ac mai dim ond o dan opsiwn Treth y Cyngor nad yw'n is na 7.3% y mae'r dull hwn o weithredu yn bosibl.
2. Argymhell i'r Cyngor Llawn mai Gofyniad Cyllideb 23/24 yw £180.101m a chynnydd o 7.3% yw lefel Treth y Cyngor a gynigir ar gyfer 23/24 at

Tudalen 5

ddibenion y Cyngor Sir (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd yn Ardoll yr Awdurdod Tân).

3. Nodi'r Adborth gan bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Gyllideb; a nodi bod pob un o'r Pwyllgorau thematig wedi argymhell cynnydd o 7.3% yn Nhrefn y Cyngor ar gyfer 2023/24 (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â chynnydd Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad Cyllideb 23/24 o £180.101m.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Er mwyn galluogi paratodau Cyllideb 2023/24 i barhau, fel bod modd paratoi papurau Cyllideb a chyfrifiadau Treth y Cyngor ar gyfer cyfarfod llawn y Cyngor ar 02/03/23.

152 **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24 a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) 2023/24**

PENDERFYNIAD:

- a) Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys fel y'i hamlinellir yn yr adroddiadau ar gyfer Benthycyca a Buddsoddi.
- b) Cymeradwyo'r Atodlen Buddsoddi fel y'i nodir yn Atodiad B.
- c) Cymeradwyo'r Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw fel y'i nodir yn Atodiad C.
- d) Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cyllid a Chaffael i newid Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Atodlen Buddsoddi yn ystod y flwyddyn. Hefyd, argymhell bod y Cyngor Llawn yn:
- e) cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer Benthycyca a Buddsoddi 2023/24; a
- f) cymeradwyo Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw 2023/24.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Gosod Strategaeth Rheoli Trysorlys a Pholisi Isafswm Refeniw ar gyfer 2023/24.

153 **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ynghylch Rhaglen Arfor: Derbynn y cyllid a'r trefniadau gweithredu yng Ngheredigion**

PENDERFYNIAD:

1. Cymeradwyo'r trefniadau a gynigir ar gyfer gweithredu a chyflawni'r Gronfa, fel y nodir yn yr adroddiad.
2. Cymeradwyo mewn egwyddor fod y Cyngor yn ymrwymo i Gytundeb Rhyng-Awdurdod gyda Chyngor Sir Gwynedd.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Fel bod Cyngor Sir Ceredigion yn gallu mynd yn ei flaen gyda Chyngor Sir Gwynedd i dderbyn Cyllid Arfor a bod y swyddogion yn gallu sefydlu trefniadau gweithredu cyn gynted â phosib.

154 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ynghylch Adnewyddu Neuadd Farchnad Aberteifi ac Adeiladu Bloc Mynediad newydd

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo cyfraniad ychwanegol o £100,000 i Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Aberteifi ac adolygu'r cytundeb ariannu presennol.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Er mwyn galluogi'r prosiect i gael ei gwblhau a chyflawni nodau ac amcanion gwreiddiol y cynigion ailddatblygu.

155 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ynghylch Trefniadau Tâl y Crwner 2023/24

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo'r cyfraddau tâl canlynol a fydd mewn grym oddi ar y 1af o Ebrill 2023 hyd at yr 31ain o Fawrth 2024:

1) Uwch Grwner rhan-amser:

- i. Cyflog Cadw o £21,120 y flwyddyn i'w gadw a sicrhau bod gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael.
- ii. Defnyddio'r gyfradd ddyddiol o £465 a gytunwyd i dalu cyflog blynyddol o £11,625 i'r Crwner gan gynnwys diwrnodau hyfforddiant. Cyfanswm: £32,745 y flwyddyn (ynghyd ag argostau).
- iii. Treuliau swyddfa/lwfans cymorth busnes – £5,000 y flwyddyn o'r 1af o Ebrill 2023 hyd at yr 31ain o Fawrth 2024.

2) Crwner Cynorthwyol:

Dyma'r cyfraddau dyddiol:

- £397 am ddiwrnod llawn; a
- £199 am hanner diwrnod.

Y rheswm dros y penderfyniad:

I gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a Chylchlythyron y JNC; lleihau heriau a diogelu'r pwrs cyhoeddus.

156 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch Adroddiad Strategaeth Tegwch ac Amddifadedd gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

1. Cymeradwyo Strategaeth Tegwch ac Amddifadedd Ceredigion.
2. Bod adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wneir gyda Strategaeth Tegwch ac Amddifadedd Ceredigion yn cael ei gyflwyno i'r ysgolion a'r Pwyllgor Craffu Cymunedau sy'n Dysgu.
3. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu.

Y rheswm dros y penderfyniad:

I sicrhau bod gan ysgolion strategaeth briodol - sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth - i gefnogi disgyblion difreintiedig.

- 157 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Cyflwyno terfynau cyflymder diofyn o 20mya**
PENDERFYNIAD:
Cymeradwyo atebion y Swyddogion i'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'i fod yn cymeradwyo hysbysebu'r cynigion i'r cyhoedd, ac yn awdurdodi, os na ddaw gwrthwynebiadau i law, y gwneir y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig angenrheidiol ac y cyhoeddir Hysbysiad o Wneud yn y wasg i'r perwyl hwn.
- Y rheswm dros y penderfyniad:*
Mae'r newidiadau arfaethedig yn y trefniadau o ran terfynau cyflymder yn seiliedig ar y rhesymau cyffredinol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun cenedlaethol hwn sef sicrhau diogelwch ar y ffyrdd, lleihau difrifoldeb anafiadau ac annog Teithio Llesol a Theithio Cynaliadwy.
- 158 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Rhwydwaith Bysiau Ceredigion**
Nodwyd yr adroddiad.
- 159 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022 Chwaraeon Cymru gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
Nodwyd yr adroddiad a'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.
- 160 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Adroddiad Blynyddol Grwp Datblygu Gofalwyr Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru 2021- 2022 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
Nodwyd yr adroddiad a'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.
- 161 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Adroddiad Blynyddol Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol Ceredigion 2021-22 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
Nodwyd yr adroddiad a'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.
- 162 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 1 2022/23 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
Nodwyd yr adroddiad a'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

Tudalen 8

- 163 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 2 2022/23 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
Nodwyd yr adroddiad a'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.
- 164 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brysgan y Cabinet**
Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar
7 Mawrth 2023**

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod:	7 Mawrth 2023
Teitl:	Cynllun Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol
Pwrpas yr adroddiad:	Cael cymeradwyaeth i gymryd rhan yn y cynllun
Er:	Penderfyniad
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, a Diogelu'r Cyhoedd

Ar hyn o bryd mae gan Geredigion tua 800+ o eiddo gwag hirdymor, mewn cyfnod pan fo prinder cyflenwad ar draws y sir.

Mae eiddo gwag yn graith ar drefi a'r pentrefi o'u hamgylch, maent yn aml yn ddrud i ddelio â nhw ac maent yn cyfrannu at ddirywiad ardal, ond yr hyn sy'n bwysig hefyd yw eu bod nhw'n ased cymunedol nas defnyddir ddigon a hynny pan fo prinder tai ar gael.

Y llynedd, datblygodd yr Awdurdod Lleol Gynllun Gweithredu Eiddo Gwag a'i nod yw mynd i'r afael â'r broblem hon gan ddefnyddio mesurau amrywiol.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyflwyno cynllun cartrefi gwag cenedlaethol, gan adeiladu ar lwyddiant blaenorol y cynllun a ddarparwyd fel rhan o Dasglu'r Cymoedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £50m i'r cynllun hwn, a rhennir yr arian yn gyfartal dros 2 flynedd (2023-24 a 2024-25).

Mae dyraniad dangosol ar gael ar gyfer Ceredigion, felly os cytunir i gymryd rhan yn y cynllun byddai'r Awdurdod Lleol yn derbyn £823,171.00 ar gyfer 2023/24 a £823,171.00 arall ar gyfer 2024/25. Mae'r dyraniad hwn yn seiliedig ar nifer yr eiddo gwag yn ystod 2022/23.

Disgwylir i bob Awdurdod Lleol gyfrannu cyfalaf sydd gwerth 10% o'i ddyrniad dangosol, felly ar gyfer Ceredigion uchafswm y costau fyddai £164,634.20 dros 2 flynedd.

Byddai'r cyllid hwn yn rhoi cyfle i'r Awdurdod Lleol hyrwyddo ymhellach y manteision o aildefnyddio eiddo at ddefnydd preswyl.

Bydd y cynllun yn cael ei redeg gan Gyngor Rhondda Cynon Taf fel yr awdurdod lleol arweiniol, a bydd pob cais yn mynd yn uniongyrchol atyn nhw gan ddefnyddio'r adnoddau a'r sgiliau sydd eisoes ar gael ganddynt yn dilyn gweithredu Tasglu'r Cymoedd yn llwyddiannus.

Mae'r meini prawf cymhwyso yn Atodiad 2(A); fodd bynnag byddai Ceredigion yn gofyn am gafeat o fewn y trefniant er mwyn sicrhau bod elfen o Gysylltiad Lleol yn cael ei chynnwys a bod angen bodloni hyn cyn y gall unrhyw gais fwrw yn ei flaen. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cytuno â'r elfen hon, pe bai'r Awdurdod Lleol

Tudalen 10

yn penderfynu cymryd rhan yn y cynllun. Y bwriad yw cadw at y gofynion ar gyfer Tai Fforddiadwy fel y cânt eu rhestru yn y meini prawf Cysylltiad Lleol:

Amodau Preswyllo

Cysylltiad Lleol, sef mae'n ofynnol bod yr ymgeisydd wedi byw am gyfnod yng Ngheredigion neu mewn ardal cyngor cymuned / tref cyffiniol (neu gyfuniad o'r ddau) am gyfnod di-dor o 5 mlynedd.

Neu

Mae angen iddo / iddi fyw yng Ngheredigion i roi gofal sylweddol i berthynas agos neu i dderbyn gofal sylweddol gan berthynas agos.

Neu

Mae angen iddo / iddi fyw yng Ngheredigion at ddibenion cyflogaeth fel gweithiwr/wraig allweddol llawn-amser yn barhaol.

Felly byddai gofyn i Geredigion ddarparu cyllid fel y nodir uchod. Byddai angen ffurfio Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf a gwneud taliadau grant cyfalaf i'r awdurdod arweiniol pan wneir cais llwyddiannus yn unol â'r meini prawf cymhwys. Mae'r arian cyfatebol wedi'i nodi o fewn y Rhaglen Gyfalaf.

Crynodeb o'r hyn byddai'n ofynnol i staff yr Awdurdod Lleol ddarparu:

- Byddai angen i'r Gwasanaethau Cyfreithiol gytuno ar y telerau ar gyfer y Cytundeb Lefel Gwasanaeth.
- Byddai angen darparu dolen at wefan Cyngor Rhondda Cynon Taf ar gyfer y cynllun hwn a hyrwyddo'r cynllun.
- Byddai angen cyfeirio pob ymgeisydd at y safle.
- Byddai angen i'r Gwasanaethau Tai bennu 'Un Pwynt Cyswllt' i drafod â Gwasanaeth Treth y Cyngor i ganfod pa mor hir y mae eiddo wedi bod yn wag a sicrhau bod yr ymgeisydd yn cwrdd â'r meini prawf o ran Cysylltiad Lleol.
- Byddai angen i'r Un Pwynt Cyswllt gysylltu â Chyngor Rhondda Cynon Taf i gadarnhau bod y ceisiadau'n cwrdd â'r gofynion cymhwys.
- Byddai angen i'r Awdurdod Lleol benodi syrfewr ar gyfer pob eiddo / cais sy'n llwyddiannus, gan adfer y costau'n llawn, ynghyd ag 1% i dalu am y gwaith gweinyddol.
- Byddai angen i'r Un Pwynt Cyswllt gysylltu â Gwasanaethau Cyllid Ceredigion i sicrhau y gellir bodloni'r gofynion o ran anfonebu sydd yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth, h.y. anfonebu Cyngor Rhondda Cynon Taf bob mis i adennill costau syrfewyr ochr yn ochr â phrosesu anfonebau oddi wrth Gyngor Rhondda Cynon Taf bob chwarter i ddarparu'r cyfraniad o 10%, hyd at yr uchafswm o £2,500 fesul cais.

Manteision y cynllun:

- Y potensial i weld dros £1,800,000 yn cael ei wario mewn cymunedau lleol ac ar fasnachau lleol.
- Ailddefnyddio eiddo gwag, a thrwy hynny, cynyddu'r cyflenwad.
- Y potensial i liniaru rhai o'r problemau ynghylch ffosffadau sy'n cyfyngu ar ddatblygu pellach.

Tudalen 11

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	A gwblhawyd Aseiad Effaith Do Integredig? Os naddo, nodwch pam Crynodeb: Hirdymor: Cydweithio: Cynnwys: Atal: Integreiddio:
Argymhelliad / Argymhellion:	<ol style="list-style-type: none">1. Gofynnir i'r Aelodau ystyried y cynnig a chadarnhau a ydynt yn cytuno i'r Awdurdod Lleol gymryd rhan yn y Cynllun Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol ac os felly:2. I ymrwymo i Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Awdurdod Arweiniol ar gyfer gweithredu'r Cynllun.3. I ddarparu'r £165,000 gofynnol o arian cyfatebol (10%) o Raglen Gyfalaf y Cyngor.
Rhesymau dros y penderfyniad:	Er mwyn cydymffurfio â'r broses ddemocrataidd.
Trosolwg a Chraffu:	Amherthnasol
Fframwaith Polisi:	Y Strategaeth Gorfforaethol Tai i Bawb: Strategaeth Tai Lleol i Geredigion 2018 - 2023
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth. Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd.
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Byddai angen hyd at £165k o arian cyfatebol o Raglen Gyfalaf y Cyngor dros 2 flwyddyn ariannol (23/24 a 24/25).
Goblygiadau Cyfreithiol:	Cymeradwyo'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Awdurdod Arweiniol
Goblygiadau Staffio:	Ychydig o oblygiadau – Wedi'u rhestru yn yr adroddiad
Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau:	Dim
Risg(iau):	Dim
Pwerau Statudol:	Amherthnasol
Papurau Cefndir:	Amherthnasol

Tudalen 12

Atodiadau:	Atodiad 1- Llythyr Dyfarnu Cyllid Atodiad 2- Llythyr oddi wrth Julie James, Aelod o'r Senedd Atodiad 3- Aseiad Effaith Integredig
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal
Swyddog Adrodd:	Llyr Hughes, Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Tai
Dyddiad:	09/02/2023



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Derek James
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Swyddfeydd y Cyngor
The Pavillions
Parc Cambrian
Cwm Clydach
Tonypandy
CF40 2XX

1 Rhagfyr 2022

Annwyl Derek

Dyfarnu Arian mewn perthynas â'r Cynllun Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol

1. Dyfarnu Cyllid

- (a) Mae'n bleser gennym eich hysbysu bod eich Cais wedi bod yn llwyddiannus, a bod cyllid o hyd at **£50,267,000 (pum deg miliwn, dau gant chwe deg saith o bunnoedd** ('y Cyllid')) wedi cael ei ddyfarnu ichi ar gyfer y Dibenion (fel y'u diffinnir yn Amod 4(a)).
- (a) Mae'r cyllid yn ymwneud â'r cyfnod 1 Medi 2022 i 31 Mawrth 2025, a rhaid ei hawlio'n chwarterol yn ôl-weithredol yn unol â'r amserlenni a nodir yn y Proffil Taliadau Dangosol. Os byddwch yn methu â hawlio'r Cyllid yn llawn bob blwyddyn yn unol â'r amserlenni a nodir yn y Proffil Taliad Dangosol, bydd unrhyw ran o'r Cyllid blynyddol nad ydych wedi'i hawlio'n peidio â bod ar gael i chi.
- (b) Bydd y llythyr hwn yn effeithiol o ddyddiad y llofnod sy'n dynodi eich bod yn ei dderbyn fel y nodir yn y dudalen dderbyn isod.
- (c) Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch dyfarnu'r Cyllid hwn neu'r Amodau, cysylltwch â'r Swyddog yn Llywodraeth Cymru a fydd yn hapus iawn i'ch helpu.

2. Awdurdod statudol

Gwneir y dyfarniad Cyllid hwn ar yr Amodau hyn ac yn ddarostyngedig iddynt, ac o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weiniogion Cymru, sy'n gweithredu yn unol â swyddogaethau a drosglwyddwyd o dan adran 58A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

3. Dehongli'r Amodau hyn

Mae unrhyw gyfeiriad yn yr Amodau hyn at:

'chi', 'eich' yn cyfeirio at Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Swyddfa'r Cyngor, y Pavillion, Parc Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX

mae **'ni', 'ein'** yn cyfeirio at Weinidogion Cymru;

mae **'Swyddog Llywodraeth Cymru'** yn cyfeirio at

Robert Davis
Rheolwr Cartrefi Gwag
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 1NA
Ffôn: 0300 025 5585
E-bost: robert.davis@llyw.cymru

neu unrhyw un o swyddogion eraill Llywodraeth Cymru y byddwn yn eich hysbysu amdano.

mae'r **'Rheolwr Prosiect'** yn cyfeirio at eich rheolwr prosiect sy'n gyfrifol am reoli'r dyfarniad Cyllid hwn o ddydd i ddydd:

Lowri John
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf,
Swyddfeydd y Cyngor,
Tŷ Sardis
Heol Sardis
Pontypridd
CF37 1DU

Ffôn: **07385034137**
E-bost: Lowri.john@rctcbc.gov.uk

mae **'Cais'** yn cyfeirio at eich cais dyddiedig 28 Mehefin 2022 i weithredu'r Cynllun Grant Cartrefi Gwag ar ein rhan;

mae **'Diwrnod Busnes'** yn cyfeirio at ddiwrnod heblaw am ddydd Sadwrn, dydd Sul, dydd Nadolig, dydd Gwener y Groglith neu ŵyl banc yng Nghymru o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971;

mae **'Amodau'** yn cyfeirio at y telerau a'r amodau a bennir yn y llythyr hwn a'r Atodlenni;

Tudalen 15

mae '**Costau a ysgwyddir**' yn cyfeirio at gost y nwyddau a/neu'r gwasanaethau yr ydych wedi'u derbyn ni waeth a ydych wedi talu amdanynt erbyn dyddiad eich hawliad ai peidio;

mae '**Costau a ysgwyddir ac a dalwyd**' yn cyfeirio at y gost ar anfoneb ar gyfer y nwyddau a/neu'r gwasanaethau yr ydych wedi'u cael ac wedi talu amdanynt drwy arian sydd wedi clirio erbyn dyddiad eich hawliad;

mae '**Digwyddiad Hysbysadwy**' yn cyfeirio at unrhyw ddigwyddiad a restrir yn Atodlen 3;

mae '**Proffil Taliadau Dangosol**' yn cyfeirio at y proffil taliadau dangosol a nodir yn Atodlen 4;

mae '**Personél**' yn cyfeirio at eich rheolwyr/cyflogeion a'ch cyflenwyr neu unrhyw berson arall a benodir neu a gyflogir gennych mewn perthynas â'r Dibenion;

mae '**Atodlen**' yn cyfeirio at yr atodlenni a atodir i'r llythyr hwn;

bydd **unrhyw gyfeiriad at ddeddfwriaeth**, boed yn gyfraith ddomestig neu ryngwladol, yn cynnwys yr holl ddiwygiadau ac amnewidiadau ac ailddeddfiadau o'r cyfryw ddeddfwriaeth sydd mewn grym o bryd i'w gilydd.

4. Defnyddio'r Cyllid

- (a) Rhaid ichi ddefnyddio'r Cyllid at y dibenion hynny a bennir yn Atodlen 1 ("y **Dibenion**") yn unig.
- (b) Rhaid ichi gyrraedd y targedau a chyflawni'r canlyniadau a bennir yn Atodlen 2 ("y **Targedau**").
- (c) Os bydd angen gwneud unrhyw newidiadau i'r Dibenion neu'r Targedau, bydd angen ichi gael ein caniatâd ysgrifenedig cyn gweithredu'r newidiadau hyn. Nodwch nad oes rhaid inni roi cydsyniad, ond byddwn yn ystyried pob cais ysgrifenedig rhesymol.
- (d) Ni chaniateir ichi ddefnyddio unrhyw ran o'r Cyllid ar gyfer unrhyw fath o weithgaredd a allai ddwyn anfri arnom yn ein barn ni, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i (1) dibenion gwleidyddiaeth plaid, (2) hyrwyddo safbwyntiau seciwlar, crefyddol neu wleidyddol penodol, (3) gamblo, (4) pornograffi, (5) cynnig gwasanaethau rhywiol, neu (6) unrhyw fath o weithgareddau anghyfreithlon.
- (e) Ni chaniateir ichi ddefnyddio unrhyw ran o'r Cyllid ar gyfer: (1) prynu cyfarpar cyfalaf (ac eithrio fel y pennir yn y Dibenion), (2) eich ffioedd cyfreithiol mewn perthynas â'r llythyr hwn, (3) Costau a Ysgwyddir neu Gostau a Ysgwyddwyd ac a Dalwyd gennych wrth gyflawni'r Dibenion cyn y cyfnod y cyfeirir ato yn Amod 1(b).

5. Rhagamodau'r Cyllid

- (a) Ni fyddwn yn talu unrhyw ran o'r Cyllid ichi nes y byddwch chi wedi darparu'r wybodaeth a'r dogfennau canlynol inni:
- i) y llythyr hwn wedi'i lofnodi gennych chi;
 - ii) Cytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA) rhyngoch chi a'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn y cynllun.
 - iii) unrhyw wybodaeth, dogfen, barn neu sicrwydd arall y credwn eu bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol (os ydym wedi'ch hysbysu yn unol â hynny) mewn cysylltiad â'r dyfarniad cyllid hwn neu'r Dibenion, neu mewn cysylltiad â derbyn y Cyllid neu eich perfformiad o dano, neu ddilysrwydd y dyfarniad Cyllid a gorfodi'r amodau.
- (b) Pan fydd angen ichi ddarparu gwybodaeth a dogfennau inni fel tystiolaeth eich bod wedi bodloni rhagamod neu amod benodol, neu i ategu cais, rhaid i'r wybodaeth a'r dogfennau fod yn dderbynol inni ym mhob ffordd. Rydym yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw wybodaeth a dogfennau nad ydynt yn dderbynol i ni am unrhyw reswm, a/neu ofyn am unrhyw wybodaeth a/neu ddogfennau pellach neu ychwanegol i gefnogi'r cais am Gyllid

6. Sut i hawlio'r Cyllid

- (a) Cewch hawlio'r Cyllid bob chwarter mewn ôl-daliadau yn seiliedig ar y Costau a Ysgwyddwyd wrth gyflawni'r Dibenion fel y pennir yn y Proffil Taliadau Dangosol.
- (b) Rhaid ichi hawlio'r Cyllid yn unol â'r dyddiadau a nodwyd yn y Proffil Taliadau Dangosol. Rhaid ichi hawlio'r Cyllid yn brydlon. Rydym yn cadw'r hawl i dynnu'n ôl unrhyw ran o'r Cyllid na fyddwch wedi ei hawlio'n brydlon.
- (c) Rhaid ichi gyflwyno eich hawliadau ar gyfer talu'r Cyllid i Swyddog Llywodraeth Cymru.
- (d) Rhaid ichi ddefnyddio ein ffurflen hawlio (sydd ar gael gan Swyddog Llywodraeth Cymru) ac atodi'r wybodaeth a'r dogfennau canlynol ar gyfer pob hawliad:
- i) cadarnhad eich bod yn gweithredu'n unol â'ch cyfansoddiad ym mhob ffordd;
 - ii) cadarnhad eich bod wedi sefydlu systemau priodol ar gyfer prosesau ariannol, asesu risg a rheoli cyn defnyddio unrhyw ran o'r Cyllid i ddarparu grant neu i gaffael unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan drydydd partïon;
 - iii) adroddiadau chwarterol ar gynnydd gan ddefnyddio templed y bydd eich swyddog yn Llywodraeth Cymru yn ei roi ichi;

Tudalen 17

- iv) adroddiadau cynnydd blynyddol ar ddiwedd pob blwyddyn, gan ddefnyddio templed adrodd y bydd eich swyddog Llywodraeth Cymru yn ei roi ichi;
 - v) ffurflen hawlio chwarterol, a roddir gan Lywodraeth Cymru.
- (e) Byddwn yn anelu at dalu pob hawliad dilys cyn gynted ag y bo modd ac fel arfer o fewn 20 diwrnod busnes ar ôl derbyn hawliad dilys a wnaed yn unol â darpariaethau'r llythyr hwn, a bob amser cyhyd â bod rhag-amodau'r Cyllid a nodir yn Amod 5 uchod wedi'u bodloni ac, ar ddyddiad yr hawliad a dyddiad talu'r Cyllid ichi:
- i) fod y datganiadau a wnaed yn Amod 8 isod yn wir ac yn gywir ac y byddant yn wir ac yn gywir yn union ar ôl i'r Cyllid perthnasol gael ei dalu ichi; a
 - ii) nad oes Digwyddiad Hysbysadwy yn mynd rhagddo neu nad oes posibilrwydd i Ddigwyddiad Hysbysadwy ddeillio o'r Cyllid arfaethedig.

7. Eich ymrwymïadau cyffredinol inni

Rhaid ichi:

- (a) diogelu'r Cyllid rhag twyll yn gyffredinol ac, yn benodol, rhag twyll ar ran eich Personél, a rhaid ichi ein hysbysu ar unwaith os bydd gennych reswm i amau bod twyll wedi digwydd yn eich sefydliad, yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd, p'un a yw'n ymwneud â'r Cyllid ai peidio. Rhaid ichi hefyd gymryd rhan yn y cyfryw fentrau atal twyll ag a byddwn yn eu gwneud yn ofynnol o bryd i'w gilydd;
- (b) cynnal gweithdrefnau addas ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw wrthdaro buddiannau boed yn rhai gwirioneddol, posibl neu ganfyddedig;
- (c) cydymffurfio â'r holl gyfreithiau, rheoliadau neu gyfarwydddebau swyddogol cymwys, boed yn deillio o gyfraith ddomestig neu gyfraith ryngwladol;
- (d) parhau i gynnal yswiriant digonol ar gyfer y risgiau a allai godi mewn cysylltiad ag unrhyw eiddo neu unrhyw weithgaredd a gaiff eu gwneud wrth gyflawni'r Dibenion. Rydym yn cadw'r hawl i'w gwneud yn ofynnol ichi gyflwyno tystiolaeth o'ch yswiriant;
- (e) cynnal systemau priodol ar gyfer prosesau ariannol, asesu risg a rheoli cyn defnyddio unrhyw ran o'r Cyllid i ddarparu grant neu i gaffael unrhyw nwyddau neu wasanaethau o drydydd partïon;
- (f) cydweithredu'n llawn â Swyddog Llywodraeth Cymru ac unrhyw gyflogaion eraill o Lywodraeth Cymru neu unrhyw ymgynghorydd a benodir gennym ni i fonitro'r modd y defnyddiwch y Cyllid a'ch cydymffurfedd â'r Amodau;

Tudalen 18

- (g) rhoi gwybod inni ar unwaith os bydd unrhyw ddatganiad a wnaed yn Amod 8 yn anghywir mewn unrhyw fodd neu, pe bai'n cael ei ailadrodd ar unrhyw adeg gan gyfeirio at y ffeithiau a'r amgylchiadau sy'n bodoli bryd hynny, y byddai'n anghywir;
- (h) rhoi gwybod inni am unrhyw gyllid yr ydych wedi'i gael o unrhyw ffynhonnell a gaffaelir neu a ddefnyddir ar y cyd â'r Cyllid i gefnogi'r Dibenion yn uniongyrchol, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i'ch darparwr yswiriant (yswiriant canslo/amharu ar fusnes), Cynllun Cadw Swyddi Llywodraeth y DU drwy gyfnod y Coronafeirws a/neu unrhyw gronfa/cynllun gan Lywodraeth Cymru ac unrhyw gyllidwyr eraill. Bwriad yr Amod hwn yw osgoi dyblygu cyllid mewn perthynas â'r Dibenion.

8. Datganiadau

Rydych yn datgan:

- (a) bod gennych y pŵer i ymgymryd â'r ymrwymadau a bennir yn yr Amodau hyn a'u cyflawni, a'ch bod wedi cymryd pob cam angenrheidiol i awdurdodi ymgymryd â'r ymrwymadau a'u cyflawni o dan yr Amodau;
- (b) na ragorir ar unrhyw gyfyngiad ar eich pwerau o ganlyniad i hawlio'r Cyllid, nac o ganlyniad i roi unrhyw sicrwydd a ystyrir gan yr Amodau;
- (c) nad yw ac na fydd ymgymryd â'r llythyr hwn, ei gyflawni gennych chi na'r trafodiadau a ystyrir ganddo yn mynd yn groes i'r canlynol nac yn gwrthdaro â'r canlynol:
 - i) eich dogfennau cyfansoddiadol;
 - ii) unrhyw gytundeb neu offeryn sy'n rhwymol arnoch chi neu'ch asedau neu sy'n gyfystyr â digwyddiad diffyg neu ddigwyddiad terfynu (sut bynnag y caiff ei ddisgrifio) o dan unrhyw gytundeb neu offeryn o'r fath; neu
 - iii) unrhyw ddeddf neu reoliad neu orchymyn barnwrol neu swyddogol, sy'n gymwys ichi;
- (d) nad oes Digwyddiad Hysbysadwy yn mynd rhagddo neu na ddisgwylir yn rhesymol i Ddigwyddiad Hysbysadwy ddeillio o ddarparu'r Cyllid ac nad oes digwyddiad nac amgylchiad arall sy'n gyfredol sy'n gyfystyr â (neu a fyddai, gyda therfyn ar gyfnod gras, rhoi hysbysiad, gwneud unrhyw benderfyniad neu unrhyw gyfuniad o'r pethau hyn, yn gyfystyr â) digwyddiad diffyg neu ddigwyddiad terfynu (sut bynnag y caiff ei ddisgrifio) o dan unrhyw gytundeb neu offeryn arall sy'n rhwymol arnoch chi neu y mae unrhyw un neu ragor o'ch asedau yn ddarostyngedig iddo;

Tudalen 19

- (e) nad oes achos o ymglyfreitha na chymrodeddu ar y gweill, yn yr arfaeth, nac wedi ei fygwth hyd y gwyddoch, sy'n cael, neu a allai gael, effaith anffafriol ar eich gallu i gyflawni a chydymffurfio ag unrhyw un neu rai o'r Amodau;
- (f) bod datgeliad llawn wedi ei wneud inni o'r holl ffeithiau neu amgylchiadau perthnasol y mae'n ofynnol eu datgelu er mwyn sicrhau y gallwn gael darlun gwir a chywir o'ch busnes a'ch gweithgareddau (cyfredol ac arfaethedig), neu y dylid eu darparu i unrhyw berson sy'n ystyried darparu Cyllid ichi;
- (g) bod unrhyw wybodaeth, ar ffurf ysgrifenedig neu electronig, a roddwyd gennych chi i ni mewn cysylltiad â'r Cyllid, ar yr adeg y'i darparwyd neu'r dyddiad y nodwyd ei bod wedi'i darparu (yn ôl y digwydd):
- i) yn achos gwybodaeth ffeithiol, yn gyflawn, yn wir ac yn gywir ym mhob agwedd berthnasol;
 - ii) yn achos amcanestyniad neu ragamcan ariannol, wedi'i pharatoi ar sail gwybodaeth hanesyddol ddiweddar ac ar sail tybiaethau rhesymol ac ar ôl ystyriaeth ofalus;
 - iii) yn achos barn neu fwriad, wedi'i gwneud ar sail resymol ac ar ôl ystyriaeth ofalus a'i bod yn deg;
 - iv) nad yw gwybodaeth o'r fath yn gamarweiniol mewn unrhyw ffordd berthnasol, nac yn cael ei gwneud yn gamarweiniol drwy fethiant i ddatgelu gwybodaeth arall,
- ac eithrio i'r graddau y cafodd ei diwygio, ei disodli neu ei diweddarau gan wybodaeth ddiweddarach a roddwyd gennych chi i ni.
- (h) eich bod wedi trafod a chytuno ar y Targedau gyda ni, a'ch bod yn hyderus eu bod yn realistig a chyraeddadwy;
- (i) nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r Cyllid, boed yn rhai gwirioneddol, posibl neu ganfyddedig;
- (j) na fydd derbyn y Cyllid hwn yn arwain at ddyblygu cyllid mewn perthynas â'r gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni'r Dibenion. Mae hyn yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i unrhyw daliadau yr ydych wedi'u cael mewn perthynas ag effeithiau lledaeniad y coronafeirws (COVID-19) gan eich darparwr yswiriant (yswiriant canslo/amharu ar fusnes), Cynllun Cadw Swyddi Llywodraeth y DU drwy gyfnod y Coronafeirws a/neu unrhyw gronfa/cynllun gan Lywodraeth Cymru ac unrhyw gyllidwyr eraill;
- (k) Ystyrir y byddwch wedi ailadrodd y datganiadau yn yr Amod 8 hwn ar bob dyddiad pan allai fod gennych rywmedigaeth i ad-dalu'r dyfarniad Cyllid ini, a thrwy gyfeirio at y ffeithiau a'r amgylchiadau sy'n bodoli ar ddyddiad o'r fath.

9. Digwyddiadau Hysbysadwy a'u canlyniadau

- (a) Rhaid ichi ein hysbysu ni ar unwaith o unrhyw Ddigwyddiad Hysbysadwy sydd wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd ond yr ydym ni hefyd yn cadw'r hawl i'ch hysbysu chi pan fyddwn ni o'r farn bod Digwyddiad Hysbysadwy wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd;
- (b) Byddwn naill ai
- i) yn eich hysbysu chi ein bod ni'n ystyried, yn ôl ein disgrisiwn absoliwt, nad oes modd unioni'r Digwyddiad Hysbysadwy; neu
 - ii) os byddwn ni'n ystyried, yn ôl ein disgrisiwn absoliwt, fod modd unioni'r Digwyddiad Hysbysadwy, yn ceisio trafod y Digwyddiad Hysbysadwy â chi gyda'r bwriad o gytuno ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r Digwyddiad Hysbysadwy.
- (c) Mae hawl gennym i gymryd unrhyw un o'r camau a restrir yn Amod 9(d):
- i) os na fyddwn, er gwaethaf ein hymdrechion, wedi llwyddo i drafod y Digwyddiad Hysbysadwy gyda chi; neu
 - ii) os byddwn yn eich hysbysu nad oes modd unioni'r Digwyddiad Hysbysadwy yn ein barn ni; neu
 - iii) os na chytunir gyda chi ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r Digwyddiad Hysbysadwy a/neu i'w unioni; neu
 - iv) os cytunir gyda chi ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r Digwyddiad Hysbysadwy a/neu i'w unioni a chithau wedyn yn peidio â dilyn y camau hynny, neu os na fodlonir unrhyw amod sy'n gysylltiedig â'r camau gweithredu (gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, yr amserlen ar gyfer y cyfryw gamau gweithredu) mewn modd sydd wrth ein bodd ni; neu
 - v) os yw'r ffordd o weithredu yn methu ag unioni'r Digwyddiad Hysbysadwy mewn modd sydd wrth ein bodd ni.
- (d) Os digwydd unrhyw un o'r amgylchiadau a bennir yn Amod 9(c) gallwn eich hysbysu, yn ôl ein disgrisiwn absoliwt, ein bod yn gweithredu fel a ganlyn:
- i) tynnu'r dyfarniad Cyllid yn ôl; a/neu
 - ii) ei gwneud yn ofynnol ichi ad-dalu'r cyfan neu ran o'r Cyllid; a/neu
 - iii) atal dros dro neu'n derfynol bob taliad pellach o'r Cyllid; a/neu
 - iv) gwneud pob taliad pellach o'r Cyllid yn ddarostyngedig i ba bynnag amodau a bennir gennym ni; a/neu
 - v) tynnu pob swm sy'n ddyledus inni o dan yr Amodau hyn o unrhyw gyllid arall yr ydym wedi'i ddyrannu ichi neu a allai gael ei ddyrannu i chi; a/neu

Tudalen 21

- vi) arfer yn eich erbyn unrhyw hawliau eraill a allai fod gennym mewn perthynas â'r Cyllid.
- (e) Rhaid i bob ad-daliad Cyllid gael ei wneud cyn pen 20 Diwrnod Busnes i'r dyddiad rydym wedi gofyn amdano.

10. Gofynion monitro

Rhaid ichi:

- (a) darparu inni'r cyfryw ddogfennau, gwybodaeth ac adroddiadau y gallwn yn rhesymol ofyn amdanynt o bryd i'w gilydd, er mwyn inni fonitro eich bod yn cydymffurfio â'r Amodau, gan gynnwys:
 - i) astudiaethau achos, yn y fformat a nodir gan Lywodraeth Cymru, o gynlluniau wedi'u hariannu sydd wedi cael eu cwblhau yn ôl y gofyn;
 - ii) adrodd cyfnodol ar ddata mewn fformat a nodir gennym ni;
 - iii) sefydlu a rheoli grŵp gweithredol, yn cynnwys cynnal cyfarfodydd bob chwarter o leiaf y bydd Swyddog Llywodraeth Cymru yn eu mynychu.
- (b) cyfarfod â Swyddog Llywodraeth Cymru a pha rai bynnag eraill o'n cynrychiolwyr y gallwn yn rhesymol ofyn ichi gyfarfod â nhw o bryd i'w gilydd
- (c) sicrhau bod y Rheolwr Prosiect (neu'r cyfryw berson arall y cytunwyd arno), ynghyd ag unrhyw un arall a nodir gennym, yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd gyda Swyddog Llywodraeth Cymru.

11. Gofynion Archwilio

- (a) Rhaid ichi:
 - ii) cynnal cofnodion cyfrifyddu cyflawn, cywir a dilys sy'n nodi'r holl incwm a gwariant mewn perthynas â'r Dibenion;
 - iii) yn ddi-dâl, ganiatáu i unrhyw swyddog neu swyddogion o Lywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru neu unrhyw gorff gorfodi cymorthdaliadau'r DU, ar unrhyw adeg resymol ac ar ôl ichi dderbyn cyfnod rhesymol o rybudd (dan amgylchiadau eithriadol, megis atal neu ganfod twyll, efallai na fydd yn ymarferol rhoi rhybudd rhesymol ichi), ymweld â'ch mangre a/neu arolygu unrhyw un neu rai o'ch gweithgareddau a/neu archwilio a gwneud copïau o'ch llyfrau cyfrifon a pha bynnag ddogfennau neu gofnodion eraill, sut bynnag y'u cedwir, a allai, ym marn resymol y swyddog, ymwneud mewn unrhyw ffordd â'r modd y defnyddiwyd y Cyllid. Nid yw'r ymgymeriad hwn yn lleihau dim ar effaith unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill sy'n arferadwy gan Lywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru neu unrhyw

Tudalen 22

gorff gorfodi cymorthdaliadau'r DU, neu unrhyw swyddog, gwas neu asiant unrhyw un o'r uchod, ac y mae'r ymgymeriad yn ddarostyngedig i'r cyfryw hawliau a phwerau statudol hynny;

- iv) cadw'r llythyr hwn a'r holl ddogfennau gwreiddiol sy'n ymwneud â'r Cyllid hyd nes inni roi gwybod ichi yn ysgrifenedig ei bod yn ddiogel eu dinistrio.
 - v) darparu Datganiad Blynyddol ar Wariant inni, yn unol â'r gofynion a nodwyd yn Atodlen 5.
- (b) O dan baragraff 17 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawliau mynediad eang i ddogfennau a gwybodaeth sy'n ymwneud ag arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r pŵer ganddynt hwy a'u swyddogion i'w gwneud yn ofynnol i bersonau perthnasol sy'n rheoli neu'n dal dogfennau, roi pa gymorth, gwybodaeth ac esboniadau bynnag y gofynnant amdanynt; a'i gwneud yn ofynnol i'r personau hynny ymddangos ger eu bron i'r cyfryw ddiben. Caiff yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff arfer yr hawl hon ar unrhyw adeg resymol.

12. Rhwymedigaethau i drydydd parti

- (a) Nid oes dim yn yr Amodau hyn sydd yn gosod unrhyw rwymedigaeth arnom ni mewn perthynas ag unrhyw rwymedigaeth sy'n ddyledus gennych chi i unrhyw drydydd parti (gan gynnwys, yn ddigwyfyngiad, cyflogeion a chontractwyr).
- (b) Rhaid i chi ein hindemnio ni rhag unrhyw rwymedigaethau, hawliadau, achosion cyfreithiol, galwadau am dâl, colledion, costau a threuliau, y bu i ni eu dioddef neu eu hachosi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o ganlyniad i unrhyw fethiant ar eich rhan chi i gyflawni, yn llawn neu'n rhannol, unrhyw rwymedigaeth a allai fod arnoch i drydydd parti, neu sy'n gysylltiedig â methiant o'r fath.

13. Hawliau eiddo deallusol a chyhoeddusrwydd

- (a) Nid oes dim yn yr Amodau yn trosglwyddo i ni unrhyw hawliau mewn eiddo deallusol a grëir gennych chi o ganlyniad i'r Dibenion.
- (b) Rhaid ichi gydnabod y cymorth a gewch gennym mewn perthynas â'r Dibenion. Rhaid i'r gymeradwyaeth honno fod ar ffurf a gymeradwyir gennym ni, a rhaid iddi gydymffurfio â chanllawiau brandio Llywodraeth Cymru.
- (c) Rhaid ichi ddarparu i'r Swyddog Llywodraeth Cymru fanylion pob cymeradwyaeth a restrir yn Amod 13(b) i'w cymeradwyo gennym ni cyn defnyddio'r cyfryw ddeunydd ac ni chaniateir ichi ddefnyddio manylion o'r fath heb gael ein cymeradwyaeth ysgrifenedig ni

Tudalen 23

ymlaen llaw. Byddwn yn ceisio ymateb i bob cais ysgrifenedig am gymeradwyaeth o fewn 15 Diwrnodau Busnes.

- (d) Rydych yn cytuno bod hawl gennym, o ddyddiad y llythyr hwn hyd at bum mlynedd o ddyddiad taliad olaf y Cyllid, i gynnwys manylion am eich sefydliad a'ch busnes chi ac am y Cyllid a'r Dibenion mewn deunyddiau hyrwyddo ar gyfer Llywodraeth Cymru, ac yr ydych yn cytuno ymhellach i gydweithredu â cheisiadau rhesymol gennym ni at y diben o baratoi deunyddiau o'r fath.

14. Gwybodaeth

- (a) Rydych yn cydnabod ein bod yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ('yr FOIA'), Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 ('yr EIR') a Deddf Diogelu Data 2018 ('y DPA') a fersiwn cyfraith yr UE a gedwir o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ((UE) 2016/679) ('GDPR y DU').
- (b) Rydych yn cydnabod mai ni, yn ôl ein disgrisiwn absoliwt, sy'n gyfrifol am benderfynu naill ai:
 - i) datgelu unrhyw wybodaeth a gawsom o dan neu mewn cysylltiad â'r Cyllid, i'r graddau y mae'n ofynnol ein bod yn datgelu'r cyfryw wybodaeth i berson sy'n gwneud cais am ddatgeliad o dan yr FOIA neu'r EIR; a/neu
 - ii) esemptio unrhyw wybodaeth o'r gofynion datgelu o dan y Cod, yr FOIA neu'r EIR.
- (c) Rydych yn cydnabod y gallwn rannu unrhyw ddata yr ydych yn ei ddarparu inni ag asiantaethau atal twyll a thrydydd partïon at ddibenion atal a chanfod twyll. Bydd unrhyw ddata personol a gesglir gennym yn cael ei reoli yn unol â'n Hysbysiad Preifatrwydd sydd ar gael yma [Datganiad Preifatrwydd: Grantiau Llywodraeth Cymru | LLYW.CYMRU](#)

15. Prynu nwyddau a gwasanaethau

- (a) Os penderfynwch brynu unrhyw nwyddau a/neu wasanaethau i gyflawni'r Dibenion, rhaid eu prynu mewn modd cystadleuol a chynaliadwy er mwyn dangos eich bod (i) wedi sicrhau'r gwerth gorau wrth ddefnyddio arian cyhoeddus, a (ii) wedi cydymffurfio â'ch polisi gwrthdaro buddiannau ar yr adeg berthnasol.
- (b) O bryd i'w gilydd, cawn ofyn am dystiolaeth gennych i ddangos eich bod yn cydymffurfio â'r Amod 15 hwn. Gallai dystiolaeth o'r fath fod ar ffurf dystiolaeth eich bod:
 - i) yn cydymffurfio ag unrhyw reoliadau, deddfwriaeth neu ganllawiau caffael sydd mewn grym o bryd i'w gilydd yr ydych chi, neu unrhyw berson sy'n cynnal busnes neu swyddogaeth

Tudalen 24

o'r un natur â chi neu natur debyg ichi, yn ddarostyngedig iddynt; neu

- ii) yn cydymffurfio â'ch polisi caffael sydd mewn grym ar yr adeg berthnasol; neu
- iii) wedi cael o leiaf dri dyfynbris ysgrifenedig ar gyfer y nwyddau a/neu'r gwasanaethau perthnasol.

Rhaid ichi ddarparu tystiolaeth o'r fath i ni'n brydlon ar ôl ein cais ysgrifenedig am dystiolaeth o'r fath.

16. Hysbysu

- (a) Rhaid i bob hysbysiad angenrheidiol a roddir o dan yr Amodau hyn fod yn ysgrifenedig (nid yw hyn yn cynnwys e-bost, ond gall gynnwys llythyr a atodir i e-bost) a rhaid iddo arddangos yn amlwg y pennawd canlynol:

'Hysbysiad mewn perthynas â'r Cynllun Grant Cartrefi Gwag cenedlaethol'.

- (b) Mae'r cyfeiriad a'r manylion cyswllt at ddibenion cyflwyno hysbysiad o dan yr Amodau fel a ganlyn

Chi: y Rheolwr Prosiect yn y cyfeiriad a nodir yn Amod 3.

Ni: Swyddog Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad a nodir yn Amod 3.

- (c) Ystyrir bod hysbysiad wedi ei gyflwyno'n briodol fel a ganlyn:-

Post dosbarth cyntaf rhagdaledig: ar yr ail Ddiwrnod Busnes ar ôl y dyddiad postio.

Â llaw: ar yr adeg y mae'n cael ei drosglwyddo i'r cyfeiriad, neu'r Diwrnod Busnes nesaf os yw'n cyrraedd ar ôl 4pm neu ar benwythnos neu wyliau cyhoeddus.

Drwy atodiad e-bost: ar yr adeg y'i hanfonir, neu'r Diwrnod Busnes nesaf os yw'n cael ei anfon ar ôl 4pm neu ar benwythnos neu wyliau cyhoeddus.

17. Cydraddoldeb

Rhaid ichi fod â pholisïau cydraddoldeb ar waith sy'n ymdrin â chyflogaeth, defnyddio gwirfoddolwyr a darparu gwasanaethau, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, a sicrhau eich bod yn dilyn y polisïau hyn.

18. Y Gymraeg

- a) Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r Gymraeg a'i diwylliant ac mae strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg yn darparu gweledigaeth ar gyfer tyfu a datblygu'r Gymraeg ymhellach.
- b) Pan fo'r Dibenion yn cynnwys neu'n ymwneud â darparu gwasanaethau yng Nghymru, rhaid iddynt gael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg oni bai ei bod yn afresymol neu'n anghymesur gwneud hynny. Rhaid iddynt gael eu darparu mewn modd nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- c) Pan fo darparu gwasanaethau yn rhan o'r Dibenion, rhaid ichi weithredu'n unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac amcanion Cymru 2050. Yn ymarferol, bydd hyn yn cynnwys y canlynol:
 - i) Sicrhau bod unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a gynhyrchir, gan gynnwys deunydd digidol, yn ddwyieithog.
 - ii) Sicrhau bod unrhyw arwyddion yn ddwyieithog.
 - iii) Sicrhau y cynhelir unrhyw ddigwyddiadau hyfforddi neu ddigwyddiadau cyhoeddus yn ddwyieithog.
 - iv) Hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg yn weithredol (gan gynnwys darparu gwasanaethau a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg) o fewn gweithgareddau a ariennir.
- d) I gael cyngor cyffredinol ynghylch darparu gwasanaethau'n ddwyieithog ac i gael gwybodaeth am sefydliadau a all eich helpu, cysylltwch â 'Helo Blod', sef gwasanaeth sy'n rhoi cyngor ar y Gymraeg, drwy ffonio 03000 258888 neu anfon eich ymholiad at heloblod@llyw.cymru

19. Datblygu cynaliadwy

Ar ôl cwblhau'r gwerthusiad, a bod gweithdrefnau awdurdodi mewnol yn cael eu dilyn, cyhoeddir Hysbysiad o Fwriad i Ddyfarnu a fydd yn cychwyn ar gyfnod segur ac yn y cyfnod hwnnw gall y sawl sy'n cyflwyno cynnig aflwyddiannus godi cwestiynau ynghylch y gwerthusiad a gall herio'r canlyniad. Os na ddaw heriau o'r fath ar ôl i 10 niwrnod calendr fynd heibio, bydd canlyniad y tendr yn dod yn swyddogol a chaiff lleoedd eu dyfarnu ar y fframwaith.

I gynorthwyo'r logisteg a gwneud y tendr yn fwy deniadol i'r trefnwyr angladdau lleol, bydd Lotiau ar wahân ar gyfer Gogledd, Canol a De Ceredigion.

Bwriedir rhoi 1 prif gyflenwr ac ail gyflenwr ar bob Lot.

Caiff y tendr ei werthuso 100% ar Ansawdd.

Y Cynnig

Gofynnir i'r Cabinet bennu ffioedd ymgwymerwyr am y cyfnod 01/04/2023-31/03/2026.

**Llesiant
Cenedlaethau'r
Dyfodol:**

**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Na
Os na, nodwch pam**

Crynodeb: *Nid yw'r adroddiad hwn yn cynrychioli newid mewn polisi neu strategaeth.*

**Hirdymor:
Cydwethio:
Cynnwys:
Atal:
Integreiddio:**

Tudalen 145

Argymhellion:	Bod y Cabinet: <ol style="list-style-type: none">1) yn ystyried y dewisiadau a nodir yn Atodiad 1, a2) Cymeradwyo mabwysiadu un o'r Dulliau o Weithredu i bennu'r cyfraddau sefydlog ar gyfer talu ffioedd trefnydd angladdau Crwner ar gyfer 2023-2026 (01/04/2023 - 31/03/2026) fel yr amlinellir yn Atodiad 2
Rheswm dros y penderfyniad:	Cydymffurfio â'r deddfwriaeth berthnasol, lliniaru her a diogelu arian cyhoeddus.
Trosolwg a Chraffu:	Dim
Fframwaith Polisi:	Amherthnasol
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	Hybu'r Economi (darparu gwasanaeth Crwner effeithlon)
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Goblygiadau cyllidebol- rhagwelir gostyngiad yng nghostau'r gyllideb flynyddol
Goblygiadau Cyfreithiol:	Cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol
Goblygiadau Staffio:	Dim
Goblygiadau Eiddo/Asedau:	Dim
Risg/Risgiau:	<ol style="list-style-type: none">1) Os na chytunir ar drefniadau, perygl o fethiant i ddiogelu arian cyhoeddus yn ddigonol2) Perygl o her gyfreithiol (y broses contractiol gyfreithiol a dogfennau angenrheidiol ar gyfer y cyfnod 2022-2025)3) Na fydd cwmnïau ymgwymerwyr lleol yn cyflwyno tendrau
Pwerau Statudol:	Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2009/25/contents Rheoliadau Treuliau, Ffioedd a Lwfansau Crwneriaid 2013; https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2013/1615/made Canllaw'r Prif Grwner i Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/JCO/Documents/coroners/guidance/chief-coroners-guide-to-act-sept2013.pdf
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Atodiad 1- Priso Tendrau Gwasanaeth y Crwner Atodiad 2- Cyfrifiadau Priso Trefnwyr Angladdau

Tudalen 146

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol:
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog
Monitro)

Swyddog Adrodd: Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol:
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog
Monitro)

Dyddiad: 20 Chwefror 2023

Atodiad 1

Prisio Tendrau Gwasanaeth y Crwner

Rhoddir ystyriaeth i bedwar dull posibl. Mae'r penawdau'n ymwneud â'r pris sylfaen cychwynnol

1. Prisio Sir Gaerfyrddin
2. Prisio tendr isaf Ceredigion
3. Prisio gwirioneddol Ceredigion
4. Hybrid a esblygodd wrth ystyried dulliau 1 i 3

Cyflwynir prisiau Sir Gaerfyrddin yn gliriach na'r rhai yn nogfennau tendro blaenorol Ceredigion o ran pellter. Mae pris penodedig ar gyfer siwrneiau o lai na 10 milltir a phris penodedig arall ar gyfer siwrneiau rhwng 10 a 40 milltir. Yn ychwanegol at hyn, mae cyfradd milltiroedd ychwanegol ar gyfer mwy na 40 o filltiroedd.

Pennir prisiau Ceredigion ar gyfer tair ardal ddaearyddol a'r math o siwrnai a wneir, heb gyfeirio at bellter. Nid yw nodi mathau o siwrneiau mewn rhestr gyflawn yn cwmpasu pob posibilad, yn fwyaf nodedig y siwrnai o'r parlwr angladdau lleol i'r cyfleuster ym Mhenrhyncoch.

Mae'n ymddangos bod natur amwys rhai agweddau o ddogfennau tendro blaenorol Ceredigion wedi arwain at rai achosion o ddealltwriaeth wahanol gan y sawl sy'n tendro wrth ystyried rhai o'r prisiau a nodir. Mae rhai o'r gwahaniaethau (a'r tebygrwydd) gan ymgwymerwr penodol yn ogystal â rhwng ymgwymerwr yn gwneud fawr ddim synnwyr.

Mae dull Caerfyrddin am wasanaeth atodol y tu allan i oriau yn adlewyrchu'n well yr un a ddefnyddir gan Geredigion ar gyfer ei staff ei hun na'r un yn nhendr blaenorol Ceredigion.

	Gyda'r nos ar ddiwrnod o'r wythnos	Yn y dydd ar benwythnos ar benwythnos	Gyda'r nos ar benwythnos
Ymgwymerwr Sir Gaerfyrddin	Ydyn	Ydyn	Ydyn
Ymgwymerwr Ceredigion	Ydyn	Nac Ydyn	Ydyn
Gweithwyr Cyngor Ceredigion	Nac Ydyn	Ydyn	Ydyn

Cyn belled ag y bo'n ymarferol rhesymol, dylai dogfen dendro Ceredigion ddilyn dull Sir Gaerfyrddin yn hytrach na dull blaenorol Ceredigion o ran siwrneiau a gwaith y tu allan i oriau.

Mae prisiau Sir Gaerfyrddin yn cynnwys swm penodedig am gyfarpar arbenigol (ni waeth beth fo'r math neu'r nifer) Mae'n gwneud synnwyr bod yna lwfans cyfarpar, ond byddai gofyn diffinio'r paramedrau.

Mae strwythur prisio Ceredigion yn caniatáu ar gyfer oedi o ran amser, ond nid un Sir Gaerfyrddin. Gall oedi o ran amser fod yn amrywiad cost mawr.

Nid yw'r naill strwythur na'r llall yn gwahaniaethu ar gyfer nifer o gyrff. Mae cludo nifer o gyrff yn gofyn am fwy o amser a mwy o gyfarpar. Dylai'r ddogfen dendro fod yn glir ynghylch amrywiad yn y pris ar gyfer nifer o gyrff. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth gludo cyrff (yn ymarferol) o Benrhyncoch i Amwythig a'r mater o'r hyn sy'n sbarduno'r angen am siwrnai o'r fath.

Dull 1 - Sir Gaerfyrddin

Mae model prasio Sir Gaerfyrddin yn gwahaniaethu rhwng siwrneiau 'sengl' a 'dwbl', a'r olaf yn costio ychydig dros ddwbl y cyntaf. Er mwyn crynhoi'r prasio, gellid nodi siwrneiau unffordd yn unig, a thrin y siwrneiau allan ac yn ôl ar wahân.

Mae ychwanegiad oriau anghymdeithasol o 50% ym model Sir Gaerfyrddin ond mae hyn ond yn berthnasol i'r gyfradd am siwrnai sengl. Byddai cynnwys ychwanegiad o 25% ar gyfer pob siwrnai (hyd at 40 milltir) yn rhoi'r un canlyniad.

Mae angen cynyddu prisiau cyfredol Sir Gaerfyrddin o 1 Ebrill 2023. Defnyddiwyd y CPI o fis Medi 2022.

Nid yw strwythur prasio Sir Gaerfyrddin yn caniatáu ar gyfer amser aros mewn lleoliad.

Dull 2 – Pris tendr isaf Ceredigion

Mae hwn yn defnyddio'r pris tendr isaf ar gyfer pob categori.

Mae angen cynyddu'r pris tendr o 1 Ebrill 2019. Defnyddiwyd y CPI o fis Medi ym mhob blwyddyn.

Dull 3 – Pris tendr a ddefnyddir Ceredigion

Mae hwn yn defnyddio'r pris tendr cyfartalog ar gyfer pob categori.

Mae angen cynyddu'r prisiau tendr o 1 Ebrill 2019. Defnyddiwyd y CPI ym mis Medi ar gyfer pob blwyddyn.

Dull 4 - Hybrid o ddulliau 1 i 3

Mae defnydd Sir Gaerfyrddin o drothwyon 10 milltir a 40 milltir yn ymddangos yn fymrwyl ond ymddengys bod cyswllt rhwng y gwahaniaeth mewn pris a'r gyfradd y filltir. Mae'r hybrid yn gyfuniad o ffi benodedig fesul siwrnai a chyfradd y filltir. Dewis arall fyddai cynnwys milltiroedd safonol tybiedig o fewn y ffi benodedig a chymhwyso'r gyfradd filltiroedd dim ond ar filltiroedd dros ben y safonol.

Mae'r gwerthoedd a nodir yn seiliedig ar Ddull 1 ond, os cytunir ar egwyddor y dull hwn, gellid seilio'r gwerthoedd eto ar Ddull 2 neu Ddull 3.

Gwerthoedd**Dull 1**

Siwrnai o lai na 10 milltir <i>y tu allan i oriau</i>	£59.00 £89.00	
Siwrnai rhwng 10 a 40 milltir <i>y tu allan i oriau</i>	£86.00 £132.00	
Siwrnai o fwy na 40 milltir <i>y tu allan i oriau</i>	£86.00 £132.00	+ £1.60 y filltir dros ben y 40 + £1.60 y filltir dros ben y 40
Cyfarpar arbenigol	£33.00	

Dull 2

O'r lleoliad i'r parlwr angladdau <i>y tu allan i oriau</i>	£52.00 £78.00	
O'r parlwr angladdau i'r corffdy <i>y tu allan i oriau</i>	£75.00 £113.00	
O'r corffdy i gyfleuster arall <i>y tu allan i oriau</i>	£75.00 £113.00	
Amser Aros Milltiroedd	£12.00 amherthnasol	

Dull 3

O'r lleoliad i'r parlwr angladdau <i>y tu allan i oriau</i>	£172.00 £259.00	
O'r parlwr angladdau i'r corffdy <i>y tu allan i oriau</i>	£172.00 £259.00	
O'r corffdy i gyfleuster arall <i>y tu allan i oriau</i>	£267.00 £352.00	
Amser Aros Milltiroedd	£44.00 £1.40	trothwy dros ben heb ei ddiffinio

Dull 4

Siwrnai safonol	£50.00
Milltiroedd ar gyfer pob siwrnai	£1.25

Tudalen 150

Atodiad 2

Cymhariaeth

Enghraifft	O	I	Pellter mewn milltiroedd	Amser	Dull			
					1	2	3	4
1	Lleoliad	Parlwr	5	Safonol	£59.00	£52.00	£172.00	£56.25
2	Lleoliad	Parlwr	15	Safonol	£86.00	£52.00	£172.00	£68.75
3	Lleoliad	Parlwr	5	Y tu allan i oriau	£89.00	£78.00	£259.00	£56.25
4	Lleoliad	Parlwr	15	Y tu allan i oriau	£132.00	£78.00	£259.00	£68.75
5	Llanbedr Pont Steffan	Penrhyn	30	Safonol	£86.00	£42.00	£42.00	£87.50
6	Aberteifi	Penrhyn	40	Safonol	£86.00	£56.00	£56.00	£100.00
7	Penrhyn	Amwythig	75	Safonol	£142.00	£75.00	£221.00	£143.75
8	Llanbedr Pont Steffan	Amwythig	90	Safonol	£166.00	£75.00	£242.00	£162.50
9	Aberteifi	Amwythig	110	Safonol	£198.00	£75.00	£270.00	£187.50
10	Penrhyn	Caerdydd	110	Safonol	£198.00	£75.00	£270.00	£187.50
11	Llanbedr Pont Steffan	Caerdydd	70	Safonol	£134.00	£75.00	£214.00	£137.50
12	Aberteifi	Caerdydd	95	Safonol	£174.00	£75.00	£249.00	£168.75
13	Penrhyn	Llundain	235	Safonol	£398.00	£75.00	£445.00	£343.75
14	Llanbedr Pont Steffan	Llundain	220	Safonol	£374.00	£75.00	£424.00	£325.00
15	Aberteifi	Llundain	240	Safonol	£406.00	£75.00	£452.00	£350.00

dim manylion tendr - yn ymarferol, telir ar y gyfradd milltiroedd ychwanegol

Tudalen 151

Caerfyrddin

<i>Chwyddiant</i>			<i>11.10%</i>	<i>10.10%</i>	
		Ebrill-21	Ebrill-22	Ebrill-23	Awgrym
Siwrnai o lai na 10 milltir	Sengl	£48.49	£53.87	£59.00	£59.00
	Dychwelyd	£97.23	£108.02	£119.00	£118.00
Siwrnai rhwng 10 a 40 milltir	Sengl	£69.95	£77.71	£86.00	£86.00
	Dychwelyd	£140.05	£155.60	£171.00	£172.00
Milltiroedd ychwanegol		£1.28	£1.42	£1.60	£1.60
Cyfarpar arbenigol		£27.20	£30.23	£33.00	£33.00
Ychwanegiad oriau					
anghymdeithasol	<10 milltir	£24.25	£26.94	£30.00	£30.00
	10-40 milltir	£34.98	£38.86	£43.00	£43.00

Ceredigion

		Gogledd		Canol		De		Isaf	A ddefnyddir	Isaf				A ddefnyddir				
O	I	DJ Evans	Reeves	Price	Reeves	Phillips	P Evans			2019	2020	2021	2022	2019	2020	2021	2022	
Yn y Dydd	Lleoliad	Parlwr Lleol	£145.00	£45.00	£150.00	£45.00	£150.00	£100.00	£45.00	£148.00	£45.77	£45.99	£47.42	£52.00	£150.52	£151.27	£155.96	£172.00
	Parlwr Lleol	Corffdy	£145.00	£65.00	£150.00	£65.00	£150.00	£100.00	£65.00	£148.00	£66.11	£66.44	£68.50	£75.00	£150.52	£151.27	£155.96	£172.00
	Corffdy	Cyfleuster Arall	£240.00	£65.00	£250.00	£65.00	£200.00	£100.00	£65.00	£230.00	£66.11	£66.44	£68.50	£75.00	£233.91	£235.08	£242.37	£267.00
	Aros Milltiroedd		£35.00 £1.20	£10.00 £1.20	£40.00 £1.20	£10.00 £1.20	£40.00 £1.20	£15.00 £3.00	£10.00 £1.20	£38.00 £1.20	£10.17 £1.22	£10.22 £1.23	£10.54 £1.26	£12.00 £1.40	£38.65 £1.22	£38.84 £1.23	£40.04 £1.26	£44.00 £1.40
Yn y Nos	Lleoliad	Parlwr Lleol	£217.50	£67.50	£225.00	£67.50	£225.00	£150.00	£67.50	£223.00	£68.65	£68.99	£71.13	£78.00	£226.79	£227.92	£234.99	£259.00
	Parlwr Lleol	Corffdy	£217.50	£97.50	£225.00	£97.50	£225.00	£150.00	£97.50	£223.00	£99.16	£99.65	£102.74	£113.00	£226.79	£227.92	£234.99	£259.00
	Corffdy	Cyfleuster Arall	£360.00	£97.50	£300.00	£97.50	£250.00	£150.00	£97.50	£303.00	£99.16	£99.65	£102.74	£113.00	£308.15	£309.69	£319.29	£352.00
	Aros Milltiroedd		£35.00 £1.20	£20.00 £1.80	£40.00 £1.20	£10.00 £1.80	£40.00 £1.20	£15.00 £3.00	£10.00 £1.20	£38.00 £1.20	£10.17 £1.22	£10.22 £1.23	£10.54 £1.26	£12.00 £1.40	£38.65 £1.22	£38.84 £1.23	£40.04 £1.26	£44.00 £1.40
Milltiroedd Ychwanegol	Lleoliad Parlwr Lleol	Parlwr Lleol Corffdy	Heb nodi Heb nodi	>10 >20	>40 Heb nodi	>10 >20	>40 >40	Heb nodi Heb nodi										
Yn y Dydd	20 milltir		£145.00	£63.00	£150.00	£63.00	£150.00	£100.00										
	30 milltir		£145.00	£81.00	£150.00	£81.00	£150.00	£100.00										
	50 milltir		£145.00	£117.00	£162.00	£117.00	£162.00	£100.00										
	100 milltir		£240.00	£65.00	£250.00	£209.00	£200.00	£100.00										
Yn y Nos	20 milltir		£217.50	£85.50	£225.00	£85.50	£225.00	£150.00										
	30 milltir		£217.50	£103.50	£225.00	£103.50	£225.00	£150.00										
	50 milltir		£217.50	£139.50	£225.00	£139.50	£237.00	£150.00										
	100 milltir		£360.00	£97.50	£300.00	£241.50	£250.00	£150.00										

Hybrid

Milltiroedd	Sir Gaerfyrddin	£1.25 Comisiwn Meddyginiaethau Dynol
5	£60.00	£56.25
10	£60.00	£62.50
15	£86.00	£68.75
20	£86.00	£75.00
25	£86.00	£81.25
30	£86.00	£87.50
35	£86.00	£93.75
40	£86.00	£100.00
45	£94.00	£106.25
50	£102.00	£112.50
55	£110.00	£118.75
60	£118.00	£125.00
65	£126.00	£131.25
70	£134.00	£137.50
75	£142.00	£143.75

CPI

Medi

2019	1.7%
2020	0.5%
2021	3.1%
2022	10.1%

CYNGOR SIR CEREDIGION**Adroddiad i'r: Cabinet****Dyddiad y cyfarfod: 07 Mawrth 2023****Teitl: Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethol****Pwrpas yr adroddiad: Cadarnhau enwebu Cynrychiolydd Awdurdod Lleol ar Gorff Llywodraethol****I'w: Benderfynu****Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau****Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfarian:** Enwebu Wendy Hughes fel Llywodraethwr Awdurdod Lleol ar gais Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfarian.**Ysgol Uwchradd Aberteifi:** Enwebu Justin Walters fel Llywodraethwr Awdurdod Lleol ar gais Corff Llywodraethol Ysgol Uwchradd Aberteifi.

Oes Integredig gwblhau?	Asesiad wedi	Effaith ei	Na – nid yw'r adroddiad yn cyfeirio at newid Polisi neu Wasanaeth.
--------------------------------	---------------------	-------------------	--

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Crynodeb:
Hirdymor:
Cydweithio:
Cynnwys:
Atal:
Integreiddio:

Argymhelliad (au): Gofynnir i Aelodau gadarnhau'r enwau a enwebwyd uchod fel cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethol yr Ysgolion perthnasol.**Rheswm dros y penderfyniad: Enwebu cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethol.****Trosolwg a Chraffu: Amherthnasol****Fframwaith Polisi:****Amcanion Llesiant Corfforaethol: Amherthnasol**

Tudalen 156

Goblygiadau Cyllid a Chaffael: Goblygiadau Cyfreithiol:	Dim
Goblygiadau Staffio:	Dim
Goblygiadau o ran eiddo / asedau:	Dim
Risg(au):	Amherthnasol
Pwerau Statudol:	Amherthnasol
Papurau Cefndir:	Amherthnasol
Atodiadau:	Amherthnasol
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Meinir Ebbsworth – Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Ysgolion a Diwylliant
Swyddog Adrodd:	Nia James – Rheolwr Corfforaethol, Adnoddau Dysgu, Gwasanaethau Ysgolion
Dyddiad:	15 Chwefror 2023

CYNGOR SIR CEREDIGION**Adroddiad i'r: Cabinet****Dyddiad y cyfarfod: 7 Mawrth 2023****Teitl: Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24****Pwrpas yr adroddiad: Cymeradwyo mabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi Annomestig Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 fel Rhyddhad Ardrethi Annomestig Dewisol o dan Adran 47 Deddf Llywodraeth Leol 1988****Er Penderfyniad****Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn parhau â'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch dros dro ar gyfer 2023-24.

Amcan y cynllun ar gyfer 2023-24 yw darparu cymorth drwy gynnig disgownt o 75% ar filiau ardrethi annomestig i fusnesau cymwys sy'n meddiannu eiddo ac yn gweithredu yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch, megis siopau, tafarndai a bwytai, campfeydd, lleoliadau perfformio a gwestai.

Bydd y cynllun ar gyfer 2023-24 yn cynnwys uchafswm i swm y rhyddhad y caiff busnesau ei hawlio ar draws Cymru. Cyfanswm y rhyddhad sydd ar gael yw £110,000 ar draws yr holl eiddo sy'n cael eu defnyddio gan yr un busnes. Mae angen i bob busnes ddatgan nad yw swm y rhyddhad y maent yn gwneud cais amdano ar draws Cymru yn fwy na'r uchafswm wrth wneud cais i awdurdodau lleol unigol.

Amlinellir meini prawf cymhwysedd manylach ac eithriadau i'r rhyddhad yn y ddogfen ganllaw atodedig gan Lywodraeth Cymru.

Gan mai mesur dros dro yw hwn a chan fod darparu'r cyllid yn gyllid dewisol o dan Adran 47 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mae angen penderfyniad i fabwysiadu'r cynllun yng Ngheredigion.

Bydd y cynllun, a ariennir yn llawn gan Lywodraeth Cymru, yn cefnogi tua 800 o fusnesau yng Ngheredigion ac amcangyfrifir y bydd gwerth cyfanswm o £3.6m.

Tudalen 158

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, esboniwch pam Crynodeb: Hirdymor: Cydweithio: Cynnwys: Atal: Integreiddio:	Naddo. Cynllun dros dro gan Lywodraeth Cymru yw hwn sy'n cael ei gynnis i bob Cyngor yng Nghymru i helpu i leihau baich Ardrethi Annomestig ar fusnesau cymwys yng Nghymru. Ddim yn berthnasol Ddim yn berthnasol Ddim yn berthnasol Ddim yn berthnasol Ddim yn berthnasol
Argymhelliad:	Argymhellir y dylai'r Cabinet wneud y canlynol: Mabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi Annomestig Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 fel Rhyddhad Ardrethi Annomestig Dewisol o dan Adran 47 Deddf Llywodraeth Leol 1988.	
Rhesymau dros y penderfyniad:	Er mwyn cefnogi busnesau lleol gan ddefnyddio'r cyllid grant sydd ar gael.	
Trosolwg a Chraffu:	Ni chyfeiriwyd y cynllun at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol gan mai cynllun dros dro gan Lywodraeth Cymru ydyw.	
Fframwaith Polisi:	Ddim yn berthnasol	
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth.	
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Ariennir y cynllun drwy grant gan Lywodraeth Cymru a bydd unrhyw ryddhad a ddyfernir yn unol â'r canllawiau / cynnis grant yn cael ei ad-dalu i Geredigion.	
Goblygiadau Cyfreithiol:	Dim	
Goblygiadau Staffio:	Dim	
Goblygiadau o ran Asedau / Eiddo:	Dim	
Risg / Risgiau:	Bydd methu â mabwysiadu'r cynllun yn golygu y bydd trethdalwyr Ceredigion o dan anfantais ariannol a bydd Llywodraeth Cymru'n tynnu ei chyllid yn ôl.	
Pwerau Statudol:	Adran 47 Deddf Llywodraeth Leol 1988	
Papurau Cefndir:	Canllawiau Llywodraeth Cymru ar y cynllun	

Tudalen 159

Atodiadau:	Atodiad 1- Cynllun Rhyddhad Ardrethi Annomestig Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Duncan Hall Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael
Swyddog Adrodd:	Ann Ireland, Rheolwr Corfforaethol – Refeniw ac Aseidiadau Ariannol
Dyddiad:	16 Chwefror 2023

Ardrethi Annomestig – Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch yng Nghymru – 2023-24

Canllawiau

Disgrifiad o'r canllawiau

Lluniwyd y canllawiau hyn i helpu cynghorau sir a bwrdeistref sirol ("awdurdodau lleol") i weinyddu'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ("y rhyddhad"). Ar 12 Rhagfyr 2022, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol y byddai'r rhyddhad ardrethi'n cael ei ehangu dros dro ar gyfer 2023-24. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i Gymru yn unig.

Mae'r canllawiau yn gosod y meini prawf y bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i bennu cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer rhyddhad ardrethi sy'n cael ei ddarparu i eiddo manwerthu, hamdden a lletygarwch. Nid yw'r canllawiau yn disodli unrhyw ddeddfwriaeth bresennol ar ardrethi annomestig nac unrhyw fath arall o ryddhad.

Dylid anfon unrhyw gwestiynau am y cynllun at: polisitrehilleol@llyw.cymru

Mae'r rhyddhad yn cael ei gynnig o 1 Ebrill 2023 a bydd ar gael tan 31 Mawrth 2024.

Cyflwyniad

Mae'r rhyddhad hwn wedi'i anelu at fusnesau a threthdalwyr eraill yng Nghymru yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch, er enghraifft siopau, tafarnau a bwytai, campfeydd, lleoliadau perfformio a gwestai.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru i ddarparu'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch i fusnesau sy'n gymwys ar gyfer 2023-24. Nod y cynllun yw darparu cymorth i eiddo cymwys sydd wedi'i feddiannu drwy gynnig 75% o ostyngiad ar filiau ardrethi annomestig ar gyfer eiddo o'r fath. Bydd y cynllun ar gael i bob busnes cymwys, fodd bynnag bydd uchafswm i swm y rhyddhad y caiff busnesau ei hawlio ar draws Cymru. Cyfanswm y rhyddhad sydd ar gael yw £110,000 ar draws yr holl eiddo sy'n cael eu defnyddio gan yr un busnes. Mae angen i bob busnes ddatgan nad yw swm y rhyddhad y maent yn gwneud cais amdano ar draws Cymru yn fwy na'r uchafswm wrth wneud cais i awdurdodau lleol unigol. Mae enghraifft o ffurflen ddatganiad wedi'i hamgáu yn Atodiad 1 i awdurdodau lleol ei defnyddio wrth ddatblygu eu ffurflenni eu hunain i'w cyhoeddi a'u cyflwyno i fusnesau.

Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ynghylch rhoi'r cynllun hwn ar waith a'i gyflwyno.

Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch

Sut bydd y rhyddhad yn cael ei ddarparu?

Gan mai mesur dros dro yw hwn, rydym yn darparu'r rhyddhad drwy roi ad-daliad i awdurdodau lleol sy'n defnyddio'u pwerau rhyddhad ardrethi yn ôl disgrisiwn o dan adran 47 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Yr awdurdodau lleol unigol eu hunain fydd yn mabwysiadu cynllun ac yn penderfynu ym mhob achos a ddylid caniatáu'r rhyddhad o dan adran 47. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ad-daliad i'r awdurdodau lleol am y rhyddhad sy'n cael ei ddarparu yn unol â'r canllawiau hyn drwy grant o dan adran 31 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a adran 58A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Sut bydd y cynllun yn cael ei weinyddu?

Yr awdurdodau lleol eu hunain fydd yn penderfynu sut i weinyddu'r cynllun er mwyn sicrhau bod cymaint â phosib yn cymryd rhan a bod cyn lleied â phosib o faich gweinyddol ar dalwyr ardrethi a staff yr awdurdod lleol.

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth glir a hygyrch i fusnesau ynghylch manylion a gweinyddiaeth y cynllun.

Pa eiddo fydd yn gallu manteisio ar y rhyddhad?

Yr eiddo a fydd yn gallu manteisio ar y rhyddhad hwn fydd eiddo manwerthu, hamdden a lletygarwch – fel siopau, tafarnau a bwytai, campfeydd, lleoliadau perfformio a gwestai ledled Cymru. Ceir rhagor o fanylion am y meini prawf cymhwysedd a'r eithriadau i'r rhyddhad isod.

Dylai'r rhyddhad gael ei roi i bob busnes cymwys fel gostyngiad yn ei fil ardrethi yn seiliedig ar feddiannaeth rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. Cydnabyddir bod rhai achosion lle bydd awdurdod lleol yn cael gwybod yn ôl-weithredol bod newid wedi bod o ran meddiannydd. Mewn achosion o'r fath, os yw'n glir bod y busnes yn meddiannu'r eiddo ar 1 Ebrill 2023 neu wedi hynny, caiff yr awdurdod lleol ddefnyddio'i ddisgrisiwn wrth ddyfarnu'r rhyddhad.

At ddibenion y cynllun hwn, bydd eiddo manwerthu fel "siopau, bwytai, caffis a llefydd sy'n gwerthu diod" yn golygu fel a ganlyn (yn ddarostyngedig i feini prawf eraill yn y canllawiau).

Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio i werthu nwyddau i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw

- Siopau (fel siop flodau, siop fara, cigydd, groser, siop ffrwythau a llysiau, gemydd, siop bapur ysgrifennu, siop drwyddedig, siop bapur newydd, siop caledwedd, archfarchnad ac ati)
- Siopau elusen

Tudalen 162

- Optegydd
- Fferyllfeydd
- Swyddfeydd post
- Siopau dodrefn neu ystafelloedd arddangos (fel siopau carpedi, gwydr dwbl, drysau garej)
- Ystafelloedd arddangos ceir neu garafannau
- Canolfannau gwerthu ceir ail law
- Marchnadoedd
- Gorsafoedd petrol
- Canolfannau garddio
- Oriellau celf (lle mae modd prynu neu logi gwaith celf)

Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio i ddarparu'r gwasanaethau canlynol i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw

- Gwasanaethau trin gwallt a harddwch
- Trwsio esgidiau/torri allweddi
- Asiantaethau teithio
- Swyddfeydd tocynnau (ee ar gyfer y theatr)
- Gwasanaethau sychlanhau
- Golchdai
- Trwsio cyfrifiaduron, setiau teledu neu gyfarpar domestig
- Trefnwyr angladdau
- Prosesu lluniau
- Llogi DVD neu fideo
- Llogi offer
- Llogi ceir
- Swyddfeydd gwerthu a gosod tai

Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio i werthu bwyd a/neu ddiod i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw

- Bwytai
- Bwytai archebu o'r car
- Siopau tecawê
- Siopau brechdanau
- Caffis
- Siopau coffi
- Tafarnau
- Bariau neu fariau gwin

Rydym yn ystyried bod ymgynnull a hamdden yn golygu'r canlynol.

Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio i ddarparu chwaraeon, hamdden a chyfleusterau i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw (gan gynnwys i wyllo gweithgareddau o'r fath) ac i ymgynnull aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw.

- Meysydd a chlybiau chwaraeon
- Cyfleusterau chwaraeon a hamdden
- Campfeydd
- Atyniadau twristaidd
- Amgueddfeydd ac orielau celf
- Plastai a thai hanesyddol
- Theatrau
- Lleoliadau cerddoriaeth fyw
- Sinemâu
- Clybiau nos

Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio i ymgynnull aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw.

- Neuaddau cyhoeddus
- Tai clybiau, clybiau a sefydliadau

Rydym yn ystyried bod gwestai, eiddo llety a phreswyl a llety hunanarlwyo yn golygu'r canlynol:

Hereditamentau lle mae'r rhan annomestig yn cael ei defnyddio i ddarparu llety preswyl fel busnes:

- Gwestai, tai llety a thai preswyl
- Cartrefi gwyliau
- Parciau a safleoedd carafannau

Ystyriaethau eraill

Er mwyn gallu manteisio ar y rhyddhad, dylai'r hereditament gael ei ddefnyddio'n bennaf neu'n gyfan gwbl at y dibenion cymwys. Yn debyg i fathau eraill o ryddhad, yr hyn sy'n digwydd yn yr eiddo sy'n bwysig yn hytrach na'r ffaith ei fod yn cael ei ddefnyddio. Felly, os yw hereditamentau yn cael eu defnyddio, ond nid yn bennaf neu'n gyfan gwbl ar gyfer y pwrpas cymwys, ni fyddant yn gymwys i gael y rhyddhad. I osgoi amheuaeth, dylid ystyried bod hereditamentau a gaeodd dros dro oherwydd cyngor y Llywodraeth ar COVID-19 yn hereditamentau sydd wedi'u meddiannu at ddibenion y rhyddhad hwn.

Nid oes bwriad i'r rhestr uchod fod yn un gwbl drylwyr, gan y byddai'n amhosibl rhestru'r holl ddefnyddiau manwerthu, hamdden a lletygarwch amrywiol sy'n bodoli. Hefyd bydd rhai enghreifftiau'n codi o ddefnydd cymysg. Fodd bynnag, y bwriad yw rhoi arweiniad i'r awdurdodau lleol ynghylch y mathau o ddefnydd sy'n gymwys am y rhyddhad ym marn Llywodraeth Cymru at y diben hwn. Dylai awdurdodau lleol

benderfynu dros eu hunain a yw eiddo penodol nad yw ar y rhestr yn gyffredinol debyg o ran natur i'r uchod. Os felly dylid ei ystyried yn gymwys ar gyfer y cynllun. Yn yr un modd, os nad yw eiddo yn debyg yn gyffredinol i'r rhai ar y rhestr uchod, ni ddylai fod yn gymwys ar gyfer y cynllun.

Mae'r rhyddhad ardrethi yn cael ei roi yn ôl disgrisiwn. Os yw awdurdodau lleol yn penderfynu defnyddio'u disgrisiwn i beidio â chaniatáu rhyddhad i fusnesau cymwys, efallai y byddent yn dymuno ceisio cyngor cyfreithiol ar gyfer unrhyw faterion cyfreithiol a allai godi o ganlyniad i benderfyniad o'r fath, fesul achos.

Efallai y bydd busnesau o'r farn eu bod wedi gallu parhau i fasnachu ar lefel sylweddol yn ystod y cyfyngiadau Coronafeirws, ac felly efallai na fyddent yn dymuno gwneud cais am y rhyddhad.

Y mathau o hereditamentau nad ydynt yn cael eu hystyried yn gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch

Mae'r rhestr ganlynol yn nodi'r mathau o ddefnydd nad ydynt yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru fel defnydd manwerthu, hamdden neu letygarwch at ddiben y cynllun hwn, ac na fyddai'n gymwys i gael y rhyddhad. Fodd bynnag, yr awdurdodau lleol eu hunain fydd yn penderfynu a yw hereditamentau yn debyg o ran natur i'r rhai sy'n cael eu rhestru ac os na fyddent yn gymwys i gael y rhyddhad o dan y cynllun.

Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu'r gwasanaethau canlynol i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw

- Gwasanaethau ariannol (ee banciau, cymdeithasau adeiladu, peiriannau arian parod, bureaux de change, benthydwyr diwrnod cyflog, siopau betio, gwystlyddion)
- Gwasanaethau meddygol (ee milfeddygon, deintyddion, meddygon, osteopathiaid, ceiropractyddion)
- Gwasanaethau proffesiynol (ee cyfreithwyr, cyfrifwyr, asiantaethau yswiriant, ymgynghorwyr ariannol, tiwtoriaid)
- Swyddfeydd dosbarthu Swyddfa'r Post
- Meithrinfeydd dydd
- Llety cŵn a chathod
- Clybiau casino a gamblo
- Cartrefi arddangos ac ystafelloedd marchnata
- Asiantaethau cyflogaeth

Hereditamentau nad ydynt yn rhesymol hygyrch i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw

Os nad yw hereditamentau fel arfer yn rhesymol hygyrch i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw, ni fyddant yn gymwys i gael rhyddhad o dan y cynllun, hyd yn oed os

oes defnydd atodol o'r hereditament y gellid ystyried ei fod yn syrthio o dan y disgrifiadau yn *Pa eiddo fydd yn gallu manteisio ar y rhyddhad?*

Hereditamentau gwag

Dylai pob eiddo sy'n wag ar 1 Ebrill 2023 gael ei eithrio rhag y rhyddhad hwn. Fodd bynnag, o dan y cynllun Rhyddhad Eiddo Gwag gorfodol, bydd eiddo gwag yn derbyn gostyngiad o 100% yn ei ardrethi ar gyfer y tri mis cyntaf (ac mewn rhai achosion y chwe mis cyntaf) o fod yn wag.

Hereditamentau sy'n eiddo i awdurdod lleol neu sy'n cael eu rhentu neu eu rheoli ganddo

Mae hereditamentau sy'n eiddo i awdurdod lleol neu sy'n cael eu rhentu neu eu rheoli ganddo, er enghraifft canolfannau ymwelwyr, siopau gwybodaeth i dwristiaid a siopau coffi neu siopau rhoddion sy'n rhan o adeiladau hanesyddol ac yn cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol, yn esempt o'r cynllun hwn.

Faint o ryddhad sydd ar gael?

Cyfanswm y rhyddhad a ariennir gan y Llywodraeth sydd ar gael i bob eiddo o dan y cynllun hwn ar gyfer 2022-23 yw 75% o'r bil perthnasol. Mae hyn yn amodol ar uchafswm o £110,000 i bob busnes ar draws eu holl eiddo yng Nghymru.

Dylid cymhwyso'r rhyddhad i'r bil net sy'n weddill ar ôl gweithredu unrhyw ryddhad gorfodol (gan gynnwys elfennau yn ôl disgrisiwn a ariennir yn llawn neu'n rhannol gan yr awdurdod lleol) ac unrhyw ryddhad arall yn ôl disgrisiwn a ariennir gan grantiau adran 31 (ac eithrio'r rhai pan fo awdurdodau lleol wedi defnyddio eu pwerau rhyddhad ehangach yn ôl disgrisiwn a gyflwynwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011, nad ariennir gan grantiau adran 31). Mae'r mathau o ryddhad y dylid eu cymhwyso cyn y Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch yn cynnwys categorïau o ryddhad yn ôl disgrisiwn a oedd ar gael cyn Deddf Lleoliaeth 2011 (e.e. rhyddhad ardrethi ar gyfer elusennau, clybiau chwaraeon amatur cymunedol, sefydliadau nid-er-elw, caledi, eiddo gwag). Caiff awdurdodau lleol ddefnyddio eu pwerau ehangach yn ôl disgrisiwn i gynnig gostyngiadau pellach y tu allan i'r cynllun hwn neu ryddhad ychwanegol i hereditamentau o fewn y cynllun. Pan fo awdurdod lleol yn cymhwyso rhyddhad a ariennir yn lleol o dan adran 47 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1998, dylid ei gymhwyso ar ôl y Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch.

Bydd cymhwysedd ar gyfer y cynllun rhyddhad ardrethi a'r rhyddhad ei hun yn cael ei asesu a'i gyfrifo ar sail ddyddiol. Dylid defnyddio'r fformiwla ganlynol wrth benderfynu ar swm y rhyddhad ardrethi i'w ganiatáu ar gyfer hereditament penodol yn ystod blwyddyn ariannol:

$$\text{Swm y rhyddhad i'w ganiatáu} = V \times 0.75$$

V yw'r tâl dyddiol am yr hereditament ar gyfer y diwrnod trethadwy ar ôl gweithredu unrhyw ryddhad gorfodol ac unrhyw ryddhad arall yn ôl disgrisiwn (ac eithrio'r rhai pan fo awdurdodau lleol wedi defnyddio eu pwerau rhyddhad yn ôl disgrisiwn a gyflwynwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011, nad ariennir gan grantiau adran 31).

Dylid cyfrifo hyn gan anwybyddu unrhyw addasiadau blwyddyn flaenorol i'r atebolrwydd sy'n syrthio ar y diwrnod.

Bydd busnesau sy'n defnyddio mwy nag un eiddo yn gallu cael Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ar gyfer pob eiddo cymwys, o fewn uchafswm o £110,000 i bob busnes ar draws Cymru.

Gall busnes gydag un eiddo a rhwymedigaeth o fwy na £146,665 yn weddill (ar ôl unrhyw ryddhad) ddefnyddio dyraniad cyfan y rhyddhad. Ni fydd unrhyw fusnesau eraill sy'n eiddo i'r busnes hwnnw yn gymwys o dan y cynllun.

Mae eiddo manwerthu, hamdden a lletygarwch sydd wedi'i eithrio o'r Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach oherwydd y rheolau amlfeddiannaeth yn gymwys am y cynllun rhyddhad hwn, o fewn yr uchafswm.

Newidiadau i hereditamentau presennol gan gynnwys newid meddiant

Bydd eiddo gwag sy'n dechrau cael ei ddefnyddio ar ôl 1 Ebrill 2023 yn gymwys i gael y rhyddhad hwn o ddyddiad ei feddiannu.

Os oes newid meddiant yn ystod y flwyddyn ariannol, ar ôl i'r rhyddhad gael ei ddarparu i'r hereditament, bydd y meddiannydd newydd yn gymwys i dderbyn y rhyddhad ar sail pro-rata os ydynt yn gweithredu yn y sectorau manwerthu, hamdden neu letygarwch. Bydd hyn yn cael ei gyfrifo yn seiliedig ar weddill y dyddiau meddiannu gan ddefnyddio'r fformiwla yn yr adran *Faint o ryddhad sydd ar gael?*

Dylid gweithredu'r gostyngiad yn ddyddiol gan ddefnyddio'r fformiwla a nodir uchod. Dylai hereditament a grëwyd o ganlyniad i raniad neu uniad yn ystod y flwyddyn ariannol, neu pan fo newid defnydd wedi bod, gael ei ystyried o'r newydd ar gyfer y gostyngiad ar y diwrnod hwnnw.

Y terfyn arian parod a rheoli cymorthdaliadau

Ni chaiff talwr ardrethi, o dan unrhyw amgylchiadau, fynd y tu hwnt i'r terfyn arian parod, sef £110,000, ar draws eu holl hereditamentau yng Nghymru. Pan fo gan dalwr ardrethi gysylltiad cymwys â thalwr ardrethi arall, dylid ystyried y talwyr ardrethi hynny fel un talwr ardrethi at ddibenion y terfynau arian parod. Ystyrir bod gan dalwr ardrethi gysylltiad cymwys ag un arall yn yr achosion isod:

- mae'r ddau dalwr ardrethi yn gwmnïau ac mae un yn is-gwmni i'r un arall, neu mae'r ddau'n is-gwmnïau i'r un cwmni; neu
- dim ond un talwr ardrethi sy'n gwmni ac mae gan y talwr ardrethi arall y fath fuddiant yn y cwmni hwnnw a fyddai'n golygu mai ef fyddai cwmni daliannol yr un arall, pe bai'r talwr ardrethi arall yn gwmni.

Dechreuodd cyfundrefn rheoli cymorthdaliadau newydd y DU ar 4 Ionawr 2023, pan ddaeth Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 i rym. Mae'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch yn debygol o fod yn gymhorthdal o dan y gyfundrefn newydd. Bydd angen i unrhyw ryddhad a ddarperir gan awdurdodau lleol

o dan y cynllun hwn gydymffurfio â rhwymedigaethau rheoli cymorthdaliadau domestig a rhyngwladol y DU.

I'r graddau y mae awdurdod lleol yn bwriadu darparu rhyddhad sydd o dan y trothwyon Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA), mae Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 yn caniatáu i gyfranogwr economaidd (ee cwmni daliannol a'i is-gwmnïau) dderbyn hyd at £315,000 mewn cyfnod o 3 blynedd (sef blwyddyn 2023-24 a'r ddwy flwyddyn ariannol flaenorol). Nid oedd fersiynau blaenorol o'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch yng Nghymru yn cael eu darparu fel cymhorthdal. Dylai awdurdodau lleol ofyn i'r talwyr ardrethi, ar sail hunanasesu, ddatgan fel rhan o'u cais am Ryddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch nad ydynt yn mynd y tu hwnt i'r terfyn arian parod na'r terfyn MFA.

Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw cydymffurfio â'r holl ddarpariaethau rheoli cymorthdaliadau perthnasol, gan gynnwys gofynion MFA o ran gweithdrefnau a thryloywder. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y [canllawiau](#) statudol ar reoli cymorthdaliadau'r DU gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

I gael cyngor pellach, cysylltwch â'r Uned Rheoli Cymorthdaliadau yn Llywodraeth Cymru drwy'r manylion isod:

Yr Uned Rheoli Cymorthdaliadau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: YrUnedRheoliCymorthdaliadau@llyw.cymru

Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2023-24

RHYDDHAD ARDRETHI MANWERTHU, HAMDDEN A LLETYGARWCH – DIBEN Y RHYDDHAD

Mae'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ar gael i fusnesau cymwys sy'n gweithredu yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch. Bydd busnesau cymwys yn cael gostyngiad o 75% yn eu rhwymedigaeth net ar gyfer ardrethi annomestig yn 2023-24. Ni ddylai uchafswm gwerth ariannol y rhyddhad ardrethi a ganiateir, ar draws pob eiddo yng Nghymru sy'n cael eu defnyddio gan yr un busnes, fod yn fwy na £110,000.

Bydd y rhyddhad yn cael ei ddarparu fel cymhorthdal ar ffurf Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA). Rhaid i'r un busnes beidio â hawlio cyfanswm o fwy na £315,000 o MFA dros dair blynedd (gan gynnwys 2023-24). Nid oedd fersiynau blaenorol o'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch yng Nghymru yn cael eu darparu fel cymhorthdal ac ni ddylid eu cyfrif tuag at y terfyn MFA. Felly, rhaid i werth gros y rhyddhad a hawlir gan yr un busnes beidio â bod yn fwy na £110,000 yng Nghymru ar gyfer 2023-24 (i gydymffurfio â thelerau'r cynllun hwn) neu £315,000 o 2021-22 i 2023-24, gan gynnwys y blynyddoedd hynny (i gydymffurfio â gofynion rheoli cymorthdaliadau). Rhaid i fusnesau sy'n hawlio'r rhyddhad ddatgan nad yw'r swm a hawlir yn mynd y tu hwnt i'r terfynau hynny, cyn y gellir dyfarnu'r rhyddhad.

Mae angen i fusnesau ddatgan eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodwyd yn y ddogfen ganllawiau hon a nodi ar gyfer pa eiddo y maent yn dymuno hawlio rhyddhad. Os yw 50% o'r atebolrwydd ar draws eiddo'r busnes yn fwy na £110,000 neu'r terfyn MFA, bydd angen i fusnesau nodi ar gyfer pa eiddo yr hoffent hawlio'r rhyddhad. Gall busnesau ddewis ar gyfer pa eiddo y byddant yn ceisio rhyddhad. Pan fydd cyfanswm y rhyddhad a ganiateir ar gyfer eiddo eraill yn agos i'r uchafswm o £110,000 neu'r terfyn MFA, gellir caniatáu swm o ryddhad sy'n llai na 75% ar gyfer eiddo cymwys arall.

Rhaid cyflwyno ffurflen gais i bob awdurdod lleol y mae'r busnes yn gwneud cais am ryddhad ar gyfer eiddo yn ei ardal. Rhaid i bob ffurflen gynnwys manylion pob eiddo y gwneir cais am ryddhad ar ei gyfer ar draws Cymru. Os na wneir cais, ni ellir rhoi rhyddhad.

Bydd unrhyw ymgais gan fusnes i wneud cais bwriadol i hawlio mwy na £110,000 o ryddhad yn ei roi mewn perygl o golli unrhyw ryddhad a roddwyd o dan y cynllun i'r busnes hwnnw gan unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru. Bydd gwybodaeth ar ryddhad a hawliwyd o dan y cynllun yn cael ei rhannu gydag awdurdodau lleol eraill a Llywodraeth Cymru, gan eu galluogi i adnabod unrhyw hawliau sy'n gyfanswm o fwy na £110,000 a gweithredu ar y rhain os oes angen.

Ni fydd Llywodraeth Cymru a [enw'r awdurdod lleol] yn goddef unrhyw ymgais gan fusnes i ffugio'u cofnodion na rhoi tystiolaeth ffug i gael y gostyngiad hwn. Mae hyn yn cynnwys hawlio cymorth sy'n fwy na'r uchafswm o £110,000 neu'r trothwy eithrio. Gall busnes sy'n gwneud cais ffug am unrhyw ryddhad, neu sy'n rhoi gwybodaeth ffug neu'n gwneud sylwadau ffug er mwyn cael rhyddhad, fod yn euog o dwyll o dan Ddeddf Twyll 2006 a gall wynebu camau cyfreithiol, yn ogystal â cholli unrhyw Ryddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ar gyfer eu holl eiddo o dan gynllun 2023-24.

[Dylai awdurdodau lleol fel y rheolwyr data gynnwys datganiad preifatrwydd ar eu ffurflenni – gan alluogi rhannu data gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eraill]

Bydd angen i bob ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth a ganlyn

Ydych chi'n gwneud cais am Ryddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol?

Os ydych, llenwch Rannau 1 a 2

Os nad ydych, llenwch Ran 1 yn unig

Rhan 1: Mae'r rhan hon yn berthnasol i bob ymgeisydd ac yn ymwneud â'r eiddo y maent yn hawlio Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ar eu cyfer gan [enw'r awdurdod lleol]

Enw a Chyfeiriad y Busnes:

Rhif Cofrestru'r Cwmni (os yw'n berthnasol):

Enw'r ymgeisydd:

Rôl yr ymgeisydd yn y busnes (ee perchennog / cyfarwyddwr / ysgrifennydd y cwmni / cyfrifydd):

Cyfeiriad e-bost yr ymgeisydd:

Rhif ffôn yr ymgeisydd:

Os ydych chi'n gwneud cais ar gyfer mwy nag un eiddo busnes, rhestrwch y rhain yn nhrefn blaenoriaeth ar gyfer derbyn rhyddhad, gan nodi mai'r uchafswm rhyddhad y gellir ei ganiatáu i fusnes yng Nghymru yw £110,000. Bydd rhyddhad yn cael ei roi ar gyfer eiddo yn y drefn yr ydych wedi'u nodi.

Gellir dod o hyd i'r manylion angenrheidiol ar y bil Trethi Annomestig a anfonwyd atoch ar gyfer pob eiddo yr ydych yn dymuno hawlio rhyddhad ar ei gyfer.

Cyfeiriad yr eiddo	Rhif Cyfrif Trethi Annomestig (Trethi Busnes)	Gwerth Trethadwy*
[Cyfeiriad yr eiddo]		£ [efallai y gall awdurdodau lleol lenwi'r tabl yn awtomatig]

<p>Cyfanswm y Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch a geisir yn [enw'r awdurdod lleol] (dim mwy na £110,000 ar draws Cymru)</p> <p>Cewch adael y rhan hon yn wag os nad yw Rhan 2 y cais hwn yn berthnasol i'ch busnes, neu os fydd uchafswm hawl eich busnes i ryddhad ar draws Cymru yn is na £110,000. Os oes angen ichi hawlio swm penodol o ryddhad gan [enw'r awdurdod lleol] i osgoi hawlio mwy na'r uchafswm o £110,000 ar gyfer eich busnes ar draws Cymru, rhaid ichi nodi hynny yma.</p>	<p>£ [gall awdurdodau lleol gyfrifo uchafswm yn awtomatig, ond rhaid i'r ymgeisydd fedru gwneud cais am swm is i osgoi hawlio mwy na £110,000 ar draws Cymru]</p>
---	--

*I ddarganfod eich gwerth trethadwy, gallwch nodi eich manylion yng [ngwiriwr ar-lein](#) Asiantaeth y Swyddfa Brisió.

Rhan 2: Mae'r rhan hon yn berthnasol i fusnesau sy'n gwneud cais am ryddhad gan sawl awdurdod lleol yng Nghymru yn unig. Mewn achosion o'r fath, dylid gwneud cais ar wahân i bob awdurdod lleol.

Eiddo mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, y mae Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch yn cael ei hawlio ar gyfer y busnes.

Cyfeiriad	Awdurdod Lleol
[Cyfeiriad yr eiddo]	[Rhestr]

Datganiad:

Rwy'n deall na all cyfanswm gwerth y rhyddhad a hawliwyd gan [ENW'R BUSNES] o dan y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ar draws Gymru gyfan fod yn fwy na £110,000 ac y bydd gwneud cais bwriadol i hawlio rhyddhad o dros £110,000 yn peryglu colli'r holl ryddhad a roddwyd o dan y cynllun. Rwy'n derbyn y cyfrifoldeb am roi gwybod i'm hawdurdod lleol am unrhyw newid mewn amgylchiadau, ar ôl cyflwyno fy nghais am ryddhad, a allai olygu bod y rhyddhad a roddwyd i'm busnes yn anghywir neu'n fwy na £110,000 ar draws Cymru (e.e. newid mewn gwerth trethadwy).

Rwy'n deall, os bydd rhyddhad o fwy na £110,000 yn cael ei roi am unrhyw reswm, y bydd cyfran ohono'n cael ei hawlio'n ôl, ar gyfer un eiddo neu ragor, i leihau gwerth y rhyddhad a roddwyd i £110,000 neu lai fel sy'n briodol. Rwy'n deall hefyd, os bydd rhyddhad o fwy na £110,000 yn cael ei roi o ganlyniad i ymgais fwriadol i hawlio mwy na'r uchafswm a ganiateir, y gellir dileu'r hawl i'r Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch cyfan a ganiateir ar gyfer [ENW'R BUSNES] ar draws Cymru, a bydd swm llawn yr atebolrwydd ardrethi yn daladwy.

Rwy'n deall y bydd y rhyddhad yn cael ei ddarparu fel cymhorthdal ar ffurf Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA). Rwy'n cadarnhau na fyddaf, drwy hawlio'r rhyddhad hwn, yn derbyn cyfanswm o fwy na £315,000 o MFA dros dair blynedd (blynyddoedd ariannol 2021-22 i 2023-24, gan gynnwys y blynyddoedd hynny).

Rwy'n cydnabod y bydd fy awdurdod lleol, unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru a/neu Lywodraeth Cymru yn gwneud unrhyw wiriadau priodol i asesu'r cais hwn am ryddhad ardrethi, gan gynnwys croeswiro yn erbyn unrhyw wybodaeth sydd gan yr awdurdod, unrhyw awdurdod arall yng Nghymru neu Lywodraeth Cymru eisoes. Rwy'n deall y bydd y data yr wyf wedi'u darparu yn cael eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru ac, os oes angen, unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru at y diben hwn i atal twyll a chamgymeriadau.

Rwy'n datgan, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, bod yr wybodaeth a ddarperir yn y cais hwn yn wir ac yn gywir, ac rwy'n deall y gallai rhoi ateb ffug i unrhyw un o'r cwestiynau yn y cais hwn gael ei ystyried fel twyll.

Llofnod [xxx]

Enw [xxx]

Dyddiad [xx/xx/xxxx]

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod:	07/03/23
Teitl:	Cyllideb Refeniw Reoladwy 2022/23 - Perfformiad Ariannol
Pwrpas yr adroddiad:	Sôn am Gyllideb Refeniw 2022/23 - y sefyllfa wirioneddol hyd at ddiwedd Rhagfyr 2022 a'r sefyllfa a ragwelir ddiwedd y flwyddyn
Er:	Er Gwybodaeth
Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet:	Y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael

1. CRYNODEB

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ynglŷn â pherfformiad ariannol pob Gwasanaeth mewn perthynas â Chyllideb Refeniw Reoladwy 2022/23. Mae'r Cyllidebau ar gyfer pob Gwasanaeth yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd er mwyn asesu amseriad yr incwm a'r gwariant, yn ogystal ag asesu'r sefyllfa a ragwelir ddiwedd y flwyddyn a sicrhau bod camau unioni yn cael eu cymryd lle bynnag y bo modd ac fel y bo'n briodol.

Ar yr adeg hon yn y flwyddyn ariannol, y sefyllfa a ragwelir ddiwedd y flwyddyn yw mantoli'r gyllideb. Fodd bynnag, gyda phwysau Dyfarniadau cyflog, ynghyd â phwysau costau chwyddiant, pwysau costau gwasanaethau eraill ac effeithiau parhaus sy'n gysylltiedig â COVID yn golygu bod yr her ariannol yn parhau i fod yn sylweddol. Felly dim ond trwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i liniaru rhai meysydd o bwysau costau dros dro y cyflawnir y sefyllfa o fantoli'r gyllideb, sy'n debyg i'r sefyllfa yn Chwarter 2.

Mae'r rhan fwyaf o heriau ariannol eleni hefyd wedi bod yn amlwg iawn ym mhroses Pennu Cyllideb 2023/24 gan fod llawer o'r pwysau costau sylfaenol yn digwydd dro ar ôl tro.

2. PERFFORMIAD Y GYLLIDEB – EFFEITHIAU AR DRAWS Y CYNGOR**a) Dyfarniadau cyflog**

- Cytunwyd ar y Dyfarniad Cyflog ar gyfer staff cyffredinol ac fe'i rhoddwyd ar waith ym mis Tachwedd 2022. Fel y dywedwyd o'r blaen, hwn oedd y cynnydd cyfradd safonol o £1,925 ar gyfer pob gradd.
- Athrawon - Derbyniodd a chytunodd Llywodraeth Cymru'r argymhelliad o 5% gan Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ac mae hwn wedi'i roi ar waith o fis Medi 2022. Fodd bynnag, yn dilyn streic, mae cynnig cyflog diwygiedig sy'n cynnwys taliad untro o 1.5%, ynghyd ag 1.5% ychwanegol

Tudalen 174

parhaus o fis Medi 2022 (h.y. 6.5%) wedi'i gyflwyno gan Lywodraeth Cymru. Ar adeg ysgrifennu hwn, mae'r cynnig diwygiedig hwn wedi'i wrthod yn furfiol.

Roedd cyfanswm cost y Dyfarniadau Cyflog (cyn y cynnig cyflog diwygiedig i Athrawon) oddeutu £6.2m, sy'n ddwbl darpariaeth Cyllideb Wreiddiol 2022/23 o £3.1m ac mae'n newidyn allweddol yn y gyllideb. Ar ôl ystyried 5 mis o arbedion Yswiriant Gwladol Cyflogwyr o fis Tachwedd, y diffyg net yw £2.8m.

Fel y dywedwyd yn Ch2, rhoddwyd y dasg o weithredu i bob Gwasanaeth i ymdrin â'u hagweddau unigol o'r diffyg net a rhoddwyd mesurau ar waith i gyflawni ychydig dros 80% o'r diffyg, gan adael balans o tua £600k sydd i bob pwrpas yn cael ei adlewyrchu o fewn Sefyllfaoedd unigol gwasanaethau sy'n cael eu rhagweld ddiwedd y flwyddyn. Roedd mesurau yn cynnwys:

- Gwneud y mwyaf o fudd cyllid grant yn ystod y flwyddyn
- Yr effaith anffodus (ond ariannol fuddiol) yn deillio o niferoedd cynyddol o swyddi gwag oherwydd heriau recriwtio a chadw.
- Dyraniad Cyfalaf uwch (£400k) yn ystod y flwyddyn i gynorthwyo Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol.
- Defnydd o Falansau Ysgolion Dirprwyedig gan Ysgolion unigol.
- Defnyddio rhan o'r cynnydd mewn Incwm Buddsoddi o gyfraddau llog cynyddol.
- Defnydd o danwariant Gwasanaethau yn ystod y flwyddyn.

Mae effaith gylchol Dyfarniadau Cyflog 22/23 wedi bod yn rhan o broses pennu Cyllideb 23/24, er mwyn ailosod y gyllideb sylfaenol.

O ran y cynnig cyflog diwygiedig i Athrawon ac ansicrwydd parhaus ynglŷn â'r mater hwn, y dybiaeth weithredol ar hyn o bryd yw y byddai unrhyw gost uwch sy'n deillio o gynnig cyflog uwch yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru fel grant penodol ychwanegol yn ystod y flwyddyn, a hynny oherwydd bod Cyflogau Athrawon yn fater datganoledig yng Nghymru.

b) Pwysau Chwyddiant

Mae lefelau uchel o bwysau costau chwyddiant yn parhau i gael eu gweld mewn sawl Gwasanaeth. Felly mae nifer o bwysau costau yn cael eu lliniaru trwy ddefnyddio cronfa wrth gefn Pwysau Costau a Chwyddiant, a rhagwelir y bydd ychydig dros £1m yn cael ei ddefnyddio yn ystod 22/23. Mae'r rhain yn cynnwys costau Tanwydd Fflyd y Cyngor (£215k), Cydrannau Cerbydau (£35k), chwyddiant contract cludiant i ddysgwyr (£400k) a chwyddiant contractau Ynni ar ôl 01/10/22 (£400k). Mae'r tybiaethau hyn yr un fath â'r rheini y soniwyd amdanynt yn Chwarter 2.

c) Costau parhaus ar ôl COVID

Mae sawl maes o effeithiau parhaus ar ôl COVID yn parhau, felly mae gwariant a hefyd lefelau incwm is sy'n cael eu lliniaru dros dro eleni gan y ddarpariaeth gorfforaethol COVID yn y gyllideb. Mae'r prif feysydd sy'n dal i gael eu heffeithio yn cynnwys Athrawon Cyflenwi Ysgolion a Chartrefi Gofal yr Awdurdod Lleol ynghyd â lefelau is o incwm a welir mewn Canolfannau Gwastraff Masnach a Chanolfannau Lles. Mae'r amcanestyniadau ar hyn o bryd yn gyfanswm costau

o tua £1.3m, a bydd rhan ohono'n cael ei lliniaru gan ddefnydd cynlluniedig a gronfeydd wrth gefn gan nad yw Cronfa Galedi COVID Llywodraeth Cymru yn bodoli mwyach.

3. PERFFORMIAD Y GYLLIDEB – SEFYLLFA'R GWASANAETHAU

Nid oes dim Trosglwyddiadau Cyllideb wedi digwydd yn ystod Chwarter 3. Ar wahân i effaith lefelau uchel chwyddiant a'r diffyg mewn rhai gwasanaethau mewn perthynas â Dyfarniadau Cyflog, mae sawl pwysau eraill i'w gweld ar y Gwasanaethau.

Mae cost Lleoliadau Plant y Tu Allan i'r Sir yn parhau'n sylweddol gyda'r costau a ragwelir yn arwain at orwariant a ragwelir o £1.6m, wedi'i rwydo i lawr i £1.1m ar ôl defnyddio'r gronfa wrth gefn Cydraddoli Lleoliadau. Mae'r costau uwch yn y maes yn atgyfnerthu'r dull o weithredu a ddefnyddir i gyflymu'r ddarpariaeth yn y sir.

Porth Cynnal, sy'n cynnwys costau Gofal Cymdeithasol pen uchel eraill, yw'r prif faes arall o orwariant sylweddol a ragwelir ar £1.485m, sef cynnydd o £201k ers Chwarter 2. Mae hyn yn cwmpasu ystod o ffactorau gan gynnwys costau cynyddol Plant sy'n Derbyn Gofal, mwy o leoliadau i Bobl Hŷn, gofyniad cynyddol i ddefnyddio staff asiantaeth a her wrth ariannu'r dyfarniad cyflog Gweinyddol, Proffesiynol, Technegol a Chlercaidd. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa wedi gwella ar Borth Gofal (o £277k) a Phorth Cymorth Cynnar (£80k) - yn bennaf o ganlyniad i gyllid grant ychwanegol yn y ddau faes. Felly ar draws Gwasanaethau Gydol Oed y Pyrth mae'r sefyllfa a ragwelir wedi gwella £156k, er ei fod yn dal i fod yn orwariant cyffredinol a ragwelir o £1.526m.

Mae ysgolion hefyd yn wynebu heriau wrth gwrdd â diffygion Dyfarniadau Cyflog yn ystod y flwyddyn a disgwylir ar hyn o bryd y bydd Balansau Ysgolion Dirprwyedig (sydd ar lefelau uwch na'r arfer) fwy na thebyg yn haneru o £8.3m i tua £4m erbyn diwedd y flwyddyn. Mae rhan o hyn hefyd yn ymwneud â defnyddio grantiau COVID.

Gyda chyfraddau llog Banc Lloegr bellach ar 4% a rhagwelir y byddant yn codi ymhellach, mae hyn yn arwain at or-gyflawniad ar y gyllideb Incwm Buddsoddi o fewn Cyllid a Chaffael. Mae hyn ynghyd ag arbedion ar y portffolio dyledion allanol yn cynorthwyo gyda'r sefyllfa gyffredinol yn ystod y flwyddyn i swm o £1.0m. Yn ogystal â hyn, o dan y Grŵp Arweiniol, mae cronfeydd wrth gefn blaenorol ar gyfer Cyflogau (£830k) ac Arbedion Trawsnewid blaenorol (£650k) bellach wedi'u rhyddhau i gynorthwyo gyda'r sefyllfa ariannol gyffredinol. Bydd hyn yn dal i ganiatáu cyfraniad terfynol i Gronfa wrth Gefn Hybu'r Economi, ond bydd yn llai na'r £2.440m a gynlluniwyd yn wreiddiol.

Mae dadansoddiad pellach o sefyllfa'r Gyllideb Reoladwy fesul Gwasanaeth i'w weld dros y dudalen:

Gwasanaeth	Y Gyllideb Ddiweddaraf £'000	Cyllideb hyd at Ragfyr 2022 £'000	Gwir wariant hyd at Ragfyr 2022 £'000	Amrywiant hyd at Ragfyr 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn Tan/ (gôr) wariant £'000	Sylw
Cyswllt Cwsmeriaid	6,150	4,264	4,040	224	-	Disgwylir gan y gwasanaeth bydd y gyllideb yn mantoli erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2022/23.
Gwasanaethau Democrataidd	4,628	3,827	3,767	60	(35)	Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, y brif her yw cost y dyfarniad cyflog o fewn y Tîm Cymorth Corfforaethol i Wasanaethau.
Economi ac Adfywio	3,637	3,133	3,031	102	75	Er bod cyllideb Twf a Menter yn elwa o swyddi gwag ar hyn o bryd, wrth i'r swyddi hyn gael eu llenwi bydd pwysau eraill yn dod yn fwy amlwg. Mae'r heriau'n cynnwys diffygion incwm yn y Gwasanaeth Cynllunio a'r galw ar gyfleusterau cyhoeddus a chost deunyddiau a phrisiau Ynni.
Cyllid a Chaffael	18,800	16,062	14,771	1,291	1,250	Rhagwelir tanwariant o £1.25m ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn cyfraddau llog ar fuddsoddiadau a'r arbedion a geir yn y gyllideb o ran cyllido benthyciadau. Dylai'r ddwy elfen hon gyda'i gilydd arwain at arbediad o £1m.
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	18,078	13,196	13,816	(620)	(340)	Mae'r Gwasanaeth yn parhau i wynebu pwysau costau amrywiol hyd at Ragfyr 2022, gan arwain at orwariant a ragwelir o £340k. Mae hyn ar ôl ystyried pwysau chwyddiant ar Danwydd a rhannau Cerbydau sy'n cael eu hariannu o'r cronfeydd wrth gefn corfforaethol (amcangyfrif o £250k), a'r undull o weithredu ar gyfer cludiant i Ddysgwyr (amcangyfrif o £160k+), yn ogystal â'r defnydd o gyllid corfforaethol COVID i dalu am ddiffygion dros dro mewn Incwm Gwastraff Masnach (£185k).
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	1,566	1,137	1,180	(43)	(90)	Mae cynnydd mewn costau cyfreithiol sy'n ymwneud â Gofal Cymdeithasol yn achosi pryder i'r Gyllideb Gyfreithiol, ac mae'r sefyllfa'n cael ei monitro'n agos.
Pobl a Threfniadaeth	2,161	1,436	1,486	(50)	(25)	Disgwylir gorwariant bychan gan y Gwasanaeth.
Polisi, Pherfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	2,340	1,772	1,590	182	170	Ar yr adeg hon o'r flwyddyn nid oes dim meysydd problemus wedi'u nodi. Bu cyfuniad o swyddi gwag a chyllid grant ychwanegol gan arwain at amrywiant ffafriol cyffredinol.

Tudalen 176

Parhad.....

Gwasanaeth	Y Gyllideb Ddiweddaraf £'000	Cyllideb hyd at Ragfyr 2022 £'000	Gwir wariant hyd at Ragfyr 2022 £'000	Amrywiant hyd at Ragfyr 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn Tan/ (gôr) wariant £'000	Sylw
<u>Gwasanaethau Gydol Oed y Pyrth</u>						
Porth Cymorth Cynnar	4,355	4,574	4,600	(26)	-	Nid yw lefelau incwm y Canolfannau Lles wedi dychwelyd hyd yma i'r hyn yr oeddent cyn COVID. Mae'r dyfarniad cyflog Gweinyddol, Proffesiynol, Technegol a Chlercaidd wedi effeithio'n arbennig o wael ar y gwasanaeth ac mae'n profi cynnydd yng nghostau cludo disgyblion. Mae cyllid grant ychwanegol yn helpu i sicrhau mantolen gyffredinol yn y gyllideb.
Porth Cynnal	28,602	22,072	23,210	(1,138)	(1,485)	Mae'r Gwasanaeth yn rhagweld y bydd yn gorwario o £1.5m, a hynny ar ôl cael £1.166m o'r cronfeydd wrth gefn i atal costau uwch asiantaethau ac i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn costau allanol o ran Lleoliadau Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl. Mae'r dyfarniad cyflog Gweinyddol, Proffesiynol, Technegol a Chlercaidd wedi cael effaith anffafriol ar y rhagolygon. Mae'r gwasanaeth yn hynod anwadal ac mae'r rhagolygon yn seiliedig ar ymrwymadau yr ydym yn gwybod amdanynt hyd yma. Hefyd, mae nifer sylweddol o amrywiannau o fewn y gwasanaeth. Ar hyn o bryd, ceir heriau gweithredol mewn nifer o feysydd, yn benodol o ran staffio a llwythi achosion.
Porth Gofal	13,603	10,235	10,360	(125)	(41)	Mae'r Gwasanaeth yn rhagweld gorwariant o £41k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn lleihad o'r gorwariant o £318k a ragwelwyd ar ddiwedd Chwarter 2, y prif resymau am hyn yw incwm grant ychwanegol ym Mis Ionawr 2023 (£182k). Ar hyn o bryd mae heriau gweithredol mewn nifer o feysydd yn enwedig Cartrefi Preswyl a Gofal Cartref a swyddi gwag yn cael eu llenwi gan staff asiantaeth.
Gwasanaethau Gydol Oed y Pyrth	46,560	36,881	38,170	(1,289)		(1,526)
Ysgolion a Diwylliant	50,887	51,847	51,597	250		100
Grŵp Arweiniol	6,981	3,576	3,721	(145)		430
						Y prif bryder yw'r pwysau sylweddol o ran costau ar gyllideb y Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir. Rhagwelir gorwariant o oddeutu £1.1m ar gyfer y flwyddyn (ar ôl defnyddio'r cronfeydd wrth

Tudalen 177

							gefn). Mae tanwariant cyffredinol i'w weld wrth i benawdau eraill yn y gyllideb gael eu rhyddhau i gynorthwyo â chyllido hyn a'r pwysau corfforaethol ehangach eraill yn ystod y flwyddyn (e.e. effaith y dyfarniad cyflog).
Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd	4,055	3,156	3,156	-		-	Ar yr adeg hon o'r flwyddyn nid oes dim meysydd problemus wedi'u nodi.
Cyfanswm y Gyllideb Reoladwy	165,843	140,287	140,325	(38)		9	

4. **CYNLLUNIAU CENEDLAETHOL ERAILL SY'N GYSYLLTIEDIG Â LLYWODRAETH CYMRU**

Mae Llywodraeth Leol yn parhau i fod y partner cyflenwi gweithredol a ffefrir ar lefel leol ar gyfer sawl Cynllun cenedlaethol, boed y rhain yn gysylltiedig â COVID, Costau Byw neu fel arall. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn cael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru a'r rhai mwy arwyddocaol sy'n dal i weithredu yn 2022/23 yw:

£150 Cynllun Costau Byw	Taliadau cronnoł £3.224m hyd yma. Mae cyfnod olaf y Cynllun Dewisol yn parhau i fod ar agor - Treth y Cyngor - Cyngor Sir Ceredigion .
£200 Cynllun Taliad Tanwydd Gaeaf	Taliadau cronnoł £1.355m hyd yma. Caeodd y cynllun 28/02/23.

Yn ogystal â'r rhain mae yna nifer o grantiau / cynlluniau eraill sy'n gysylltiedig â COVID sydd yn cael cymorth ac adnoddau o hyd. Mae hyn yn cynnwys Profi, Orlhain a Diogelu (Orlhain Cysylltiadau), Canolfan Frechu Trewen a Chyllid Brys Bysiau. Mae cryn dipyn o fewnbwn a chymorth hefyd wedi'i roi tuag at y cynlluniau sydd ar waith i gefnogi gwahanol raglenni Ffoaduriaid Wcrain.

5. **CASGLIAD**

Mae'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod 22/23 yn parhau i fod yn sylweddol ac yn helaeth. Mae hyn hefyd wedi'i osod yn erbyn cefndir heriau economaidd cenedlaethol ehangach sy'n wynebu'r DU gyfan, gyda chwyddiant cyffredinol yn dal i fod yn uchel ar 10.1% (Ionawr 2023). Fodd bynnag, nid yw Ceredigion ar ei phen ei hun ac mae heriau tebyg yn cael eu hwynebu gan yr holl awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

Mae gan y Cyngor fantolen gref ac mae'n gydnerth yn ariannol, ond mae'r amcanestyniadau cyfredol bellach ar gyfer tuedd ar i lawr ar lefel y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi er mwyn lliniaru dros dro ar nifer o ffryntiau yn ystod 22/23. Mae'r sefyllfa hon yn cael ei rheoli'n ofalus ac mae'n rhan o ddull o weithredu yn ystod y flwyddyn sy'n cydnabod bod lefelau cronfeydd wrth gefn wedi cynyddu yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf. Mae proses Cyllideb 23/24 eisoes wedi cydnabod effaith amryw o bwysau cylchol o ran costau ar y gyllideb sylfaenol. Mae risgiau'n parhau o hyd o gwmpas cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw gynnydd yn Nyfarniad cyflog Athrawon Medi 2022, er bod y risg fwyaf yn debygol o fod yr effaith barhaus yn hytrach na'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn hyd at 31/03/23.

Er bod cynnydd o 8.1% yn setliad Cyllid Llywodraeth Leol 23/24 Llywodraeth Cymru yn uwch na'r disgwyl ac wedi'i groesawu, mae'r arwyddion cynnar ar gyfer 24/25 o gynnydd o 3.1% yn unig ynghyd â'r ansicrwydd ynghylch setliadau cyflogau yn y dyfodol, yn golygu bod heriau ariannol sylweddol o hyd y tu hwnt i ddiwedd proses Cyllideb 23/24.

Tudalen 180

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam Hirdymor: Ddim yn berthnasol Integreiddio: Ddim yn berthnasol Cydweithio: Ddim yn berthnasol Cynnwys: Ddim yn berthnasol Atal: Ddim yn berthnasol	Nac oes. Mae'r adroddiad er gwybodaeth
Argymhelliad:	Nodi'r sefyllfa Refeniw gyffredinol a amlinellir yn yr adroddiad.	
Rheswm dros y penderfyniad:	Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor sefyllfa ariannol fantoledig ym mlwyddyn ariannol 2022/23.	
Trosolwg a Chraffu:	Ystyriwyd yn ystod y broses o bennu'r Gyllideb	
Fframwaith Polisi:	Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig	
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Mae'r Gyllideb yn cefnogi'r holl Amcanion Strategol.	
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Nodwyd hwy yn yr adroddiad	
Goblygiadau cyfreithiol:	Rhan o rôl a chyfrifoldeb y Swyddog Adran 151 wrth weinyddu materion ariannol y Cyngor yn briodol o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972	
Goblygiadau staffio:	Mae lefelau uchel o ddyfarniadau cyflog, yn enwedig os yw hyn yn parhau am fwy na blwyddyn, yn cyflwyno risg bosibl o fod angen adolygu blaenoriaethau'r Cyngor a blaenoriaethau Gwasanaethau, yn enwedig os na fydd lefelau cyfatebol o gyllid Llywodraeth Cymru ar ddod.	
Risg(iau):	Ceir risg na fydd digon o arian os bydd yna orwario mawr. Mae'r Cyngor eisoes yn ffurfiol wedi cynyddu sgôr y risg ariannol yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.	
Papurau Cefndir:	Cyllideb Refeniw 2022/23	
Atodiadau:	Atodiad A: Cyswllt Cwsmeriaid Atodiad B: Gwasanaethau Democrataidd Atodiad C: Economi ac Adfywio Atodiad D: Cyllid a Chaffael Atodiad E: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol Atodiad F: Gwasanaeth Cyfreithiol a Llywodraethu Atodiad G: Pobl a Threfniadaeth Atodiad H: Polisi, Pherfformiad a Diogelu'r Cyhoedd Atodiad I: Porth Cymorth Cynnar Atodiad J: Porth Cynnal	

Tudalen 181

Atodiad K: Porth Gofal
Atodiad L: Ysgolion a Diwylliant
Atodiad M: Grŵp Arweiniol
Atodiad N: Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a
Chronfeydd wrth Gefn

**Swyddog Arweiniol
Corfforaethol:** Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a
Chaffael

Swyddogion Adrodd: Duncan Hall a Justin Davies

Dyddiad: 24/02/23

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2022 / Budget Forecast Report December 2022

Cyswllt Cwsmeriaid / Customer Contact

Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Arwyn Morris

1. CRYNODEB / SUMMARY

Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:

Disgwylir gan y gwasanaeth bydd y gyllideb yn mantoli yn ystod y flwyddyn ariannol 2022/23.

It is expected by the service to break even by the end of the 2022/23 financial year.

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Rhagfyr 2022 Budget to December 2022 £'000	Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2022 Actuals to December 2022 £'000	Amrywiant hyd at Rhagfyr 2022 Variance to December 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/(over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (L, C neu U) Level of risk (L, M or H)
TGCh / ICT	3,713	2,432	2,199	233	40	Mae disgwyl i'r adran yma tanwario oherwydd costau staff. This area is expected to underspend due to staff cost.	I / L
Gwasanaethau Cwsmeriaid / Customer Services	1,365	1,024	1,011	13	(20)	Mae disgwyl i'r adran yma gorwario oherwydd costau Cyflenwadau a Gwasanaethau. This area is expected to overspend due to Supplier and Services Costs.	I / L
Gwasanaethau Cymunedol / Community Services	968	730	752	(22)	(20)	Mae incwm Llyfrgelloedd yn llai na'r disgwyl. The income in Libraries is lower than expected.	I / L
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	104	78	78	-	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I / L
CYFANSWM / TOTAL	6,150	4,264	4,040	224	-		

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2022 / Budget Forecast Report December 2022

Gwasanaethau Democraidd / Democratic Services

Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Lowri Edwards

1. CRYNODEB / SUMMARY

Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:

Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, y brif her yw cost y dyfarniad cyflog o fewn y Tîm Cymorth Corfforaethol i Wasanaethau.

At this stage in the year the main challenge is the payaward cost within the Corporate Service Support.

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Rhagfyr 2022 Budget to December 2022 £'000	Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2022 Actuals to December 2022 £'000	Amrywiant hyd at Rhagfyr 2022 Variance to December 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/(over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (L, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Gwasanaethau Democraidd / Democratic Services	1,963	1,664	1,625	39	(15)	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I / L
Cymorth Corfforaethol i Wasanaethau / Corporate Service Support	2,250	1,687	1,681	6	(35)	Nid oes dim materion sylweddol eraill wedi'u nodi ar wahân i effaith y dyfarniad cyflog. There are no significant issues identified, other than the impact of the Payaward.	I / L
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	415	476	461	15	15	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I / L
CYFANSWM / TOTAL	4,628	3,827	3,767	60	(35)		

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2022 / Budget Forecast Report December 2022

Economi ac Adfywio / Economy and Regeneration

Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer: Russell Hughes-Pickering

1. CRYNODEB / SUMMARY

Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:

Er bod cyllideb Twf a Menter yn elwa o swyddi gwag ar hyn o bryd, wrth i'r swyddi hyn cael eu llenwi amlygir pwysau eraill o fewn y gwasanaeth. Mae'r heriau yn cynnwys diffyg incwm yn y Gwasanaeth Cynllunio, y galw ar gyfleusterau cyhoeddus a chostau deunyddiau a Phrisiau ynni.

Although the Growth & Enterprise budget is currently benefiting from vacant posts, as these posts are filled other pressures will become more obvious. The challenges include income shortfalls in the Planning Service and the demand on Public conveniences and the cost of materials and Energy prices.

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Rhagfyr 2022 Budget to December 2022 £'000	Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2022 Actuals to December 2022 £'000	Amrywiant hyd at Rhagfyr 2022 Variance to December 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/(over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (L, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Gwasanaethau Eiddo / Property Services	2,761	2,175	2,157	18	(10)	Collir incwm rhent yn y swyddfeydd. Bydd costau ynni yn cynnydd yn fawr o mis Hydref. Rental income is not being received for the offices. Energy prices have risen considerably from October.	C / M
Twf a Menter / Growth & Enterprise	630	734	659	75	100	Nid oes yr un maes yn peri problem ar hyn bryd o hyn. Mae'r rhagolygon yn adlewyrchu'r budd a geir o swyddi gwag. There are no problem areas identified at present, the forecast reflects the benefit from vacant posts.	I / L
Gwasanaethau Cynllunio / Planning Services	183	177	135	42	(15)	Mae'r incwm a geir o'r ffoedd cynllunio ar hyn o bryd oddeutu £90k yn llai na'r gyllideb broffil ar gyfer Chwarter 2. Serch hynny, gwneir yn iawn am hyn yn rhannol drwy'r arbedion a ddaw o swyddi gwag. Mae rhai elfennau o'r gwaith cynllunio yn cael ei wneud yn allanol. Bydd unrhyw gostau ychwanegol neu ddiffyg o ran incwm cynllunio yn cael eu hariannu gan gyllid wrth gefn. Planning income is currently below the budget profile by c£90k for Q2, although this is partly being covered by vacant posts savings. Certain Planning work has also been outsourced. Any additional costs or Planning income shortfall will be covered by reserve funding.	U / H
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	63	47	80	(33)	-	Mae hyn yn cynnwys ffactor swyddi gwag ar draws y gwasanaeth cyfan, sy'n cael ei ariannu gan y Gwasanaeth Twf a Menter. This contains a vacancy factor for the whole service, which is being covered by the Growth & Enterprise service.	I / L
CYFANSWM / TOTAL	3,637	3,133	3,031	102	75		

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2022 / Budget Forecast Report December 2022

Cyllid a Chaffael / Finance and Procurement

Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Duncan Hall

1. CRYNODEB / SUMMARY

Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:

Rhagwelir tanwariant o £1.25m ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn cyfraddau llog ar fuddsoddiadau a'r arbedion a geir yn y gyllideb o ran cyllido benthyciadau. Dylai'r ddwy elfen hon gyda'i gilydd arwain at arbediad o £1m.

An underspend of £1.25m is forecast to year end, due mainly to the increase in the interest rates for investments and savings on the loans financing budget which should generate a combined saving of £1m.

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Rhagfyr 2022 Budget to December 2022 £'000	Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2022 Actuals to December 2022 £'000	Amrywiant hyd at Rhagfyr 2022 Variance to December 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/(over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (L, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Gwasanaeth Cyllid a Chaffael / Finance & Procurement Service	3,354	2,464	2,319	145	150	Mae'r tanwariant yn ymwneud â swyddi gwag a chyllid ychwanegol oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau. Underspends relating to staff vacancies and additional funding from DWP	I / L
Budd-daliadau Tai a Chynllun Cymorth Treth y Cyngor / Housing Benefits and Council Tax Support Scheme	6,287	6,287	6,072	215	100	Mae'r tanwariant a ragwelir yn ymwneud â Chynllun Cymorth Treth y Cyngor. The forecast underspend relates to the Council Tax Support Scheme	C / M
Yswiriant, Terfynu a Chostau Corfforaethol Eraill / Insurance, Termination & Other Corporate Costs	1,746	1,300	1,128	172	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	C / M
Cyfrif Cyfalaf Corfforaethol / Corporate Capital Account	7,413	6,011	5,252	759	1,000	Rydym yn derbyn llog ychwanegol o'r buddsoddiadau oherwydd y cynnydd mewn cyfraddau llog. Hefyd, rydym yn talu llai ar fenthyciadau na'r hyn a gyllidebwyd ar ei gyfer. There is further additional interest being generated on investments due to the increase in interest rates. In addition there are lower payments on loans than budgetted.	C / M
CYFANSWM / TOTAL	18,800	16,062	14,771	1,291	1,250		

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2022 / Budget Forecast Report December 2022

Prifffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol / Highways and Environmental Services

Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Rhodri Llwyd

1. CRYNODEB / SUMMARY

Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i wynebu pwysau costau amrywiol hyd at Rhagfyr 2022, gan arwain at orwariant rhagamcanol o £340k. Mae hyn ar ol gwneud lwfans ar gyfer chwyddiant ar Tanwydd a rannau Cerbydau sy'n cael eu hariannu o'r cronfeydd corfforaethol (amcangyfrif o £250k), a'r un dull ar gyfer trafndiaeth i Ddysgwyr (amcangyfrif o £160k+), yn oghystal a'r defnydd o gyllid corfforaethol COVID i dalu am ddiffygion dros dro mewn Incwm Gwastraff Masnach (£185k).

The Service continues to face various cost pressures as at December 2022, leading to a projected overspend of £340k. This is after making allowance for inflationary pressures on Fuel & Vehicle parts being funded from corporate reserves (estimate £250k), and the same approach on Learner transport (estimate £160k+), plus the use of corporate COVID funding to temporarily cover shortfalls in Trade Waste Income (£185k).

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Rhagfyr 2022 Budget to December 2022 £'000	Gwir variant hyd at Rhagfyr 2022 Actuals to December 2022 £'000	Amrywiant hyd at Rhagfyr 2022 Variance to December 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan(gor) wariant Year End Forecast under/(over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (L, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Casglu a Gwaredu Gwastraff / Waste Collection & Disposal	5,108	3,628	3,615	13	-	Pwysau incwm masnach i'w gael ei ariannu o Grofeydd Corfforaethol. Pressure from lower trade income is to be funded from Corporate Reserves	I/L
Parciau a gerddi, Glanhau Prifffyrdd, Gwasanaethau Parcio, Harbwrws / Parks & Gardens, Highways Cleaning, Parking Services, Harbours	-	(111)	42	(153)	(155)	Pwysau incwm is o'r Gwasanaethau Parcio ac Harbwrws. Pressure from lower Parking Services and Harbour income.	C/M
Cludiant Teithwyr Corfforaethol, Uned Cynnal a Chadw Trafndiaeth / Corporate Passenger Transport, Transport Maintenance Unit	6,579	4,639	4,710	(70)	103	Mae pwysau costau cynyddol rhagamcanol yn sgil trafndiaeth, rhannau cerbydau a thanwydd, i'w ariannu o'r cronfeydd corfforaethol, ac fe fydd tanariant ar trafndiaeth cymdeithasol. The projected increased cost pressures from transport, vehicle spares and fuel is to be funded from corporate reserves, and an underspend on social transport.	C/M
Cynnal a Chadw Prifffyrdd, Caffael a Strategaeth, Peirianeg Arfordirol a Gwaith Draenio Tir / Highways Maintenance, Coastal Engineering & Land Drainage Procurement & Strategy	5,153	4,124	4,577	(453)	(288)	Pwysau incwm Asiantaeth Cefnffyrdd ac prosiectau cyfalaf is. Pressure from lower Trunk Road and capital projects income.	C/M
Gwasanaethau Prifffyrdd, Diogelwch y Ffordd, Rheoli Trafndiaeth Rhanbarthol / Highways Services, Road Safety, Regional Transport Management	656	480	393	87	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I/L
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	582	436	479	(43)	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I/L
CYFANSWM / TOTAL	18,078	13,196	13,816	(619)	(340)		

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2022 / Budget Forecast Report December 2022

Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Legal & Governance Services

Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Elin Prysor

1. CRYNODEB / SUMMARY

Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:

Mae cynnydd yng ngostau cyfreithiol gofal cwmdeithasol yn achosi pryder I'r gyllideb gyfreithiol, ceir y sefyllfa ei monitro yn agos.

An increase in Social Care related legal costs is causing concern for the Legal Budget, the situation is being closely monitored.

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Rhagfyr 2022 Budget to December 2022 £'000	Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2022 Actuals to December 2022 £'000	Amrywiant hyd at Rhagfyr 2022 Variance to December 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/(over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (L, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Gwasanaethau Cyfreithiol / Legal Services	692	520	539	(19)	(80)	Mae angen monitro costau cyfreithiol allanol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn agos, gan fod nifer y cyfarwyddiadau am wasanaeth Gofal wedi'i Gynllunio mewn gorchmynion gofal plant yn parhau i gynyddu ar ôl Covid. Disgwylir hefyd y bydd nifer uchel o orchmynion gofal yn cael eu diddymu, a bydd hyn hefyd yn ychwanegu at y pwysau o ran costau. Close monitoring of external Social services legal costs is required as the number of Planned Care service instructions for child care orders is continuing to increase post-Covid. High numbers of Care order Discharges are also expected which will also add to the costs pressure.	C / M
Gwasanaethau Archwilio / Audit Services	596	409	427	(18)	(10)	Mae ffioedd Archwilio Cymry wedi cynyddu ac chynhigir eu cynyddu fwyfwy. Audit Wales fees have increased and there are proposals to increase fees further.	I / L
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau (gan gynnwys Crwneriaid) / Service Management and Strategy (including Coroners)	278	208	214	(6)	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I / L
CYFANSWM / TOTAL	1,566	1,137	1,180	(43)	(90)		

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2022 / Budget Forecast Report December 2022

Pobl a Threfniadaeth / People & Organisation

Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer: Geraint Edwards

1. CRYNODEB / SUMMARY

Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:

Mae gorwariant bychan disgwyl gan y gwasanaeth.

A small overspend is expected by the Service.

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Rhagfyr 2022 Budget to December 2022 £'000	Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2022 Actuals to December 2022 £'000	Amrywiant hyd at Rhagfyr 2022 Variance to December 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/(over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (L, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Pobl a Threfniadaeth / People & Organisation	2,080	1,376	1,426	(50)	(25)	Mae disgwyl i'r adran yma gorwario oherwydd codiad cyflog yn uwch na'r disgwyl ac yr angen am fwy o hyfforddiant tân.. This area is expected to overspend due to a higher than expected pay award and a requirement for additional fire training.	I / L
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	81	60	60	-	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I / L
CYFANSWM / TOTAL	2,161	1,436	1,486	(50)	(25)		

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2022 / Budget Forecast Report December 2022**Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoed / Policy, Performance & Public Protection****Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Alun Williams****1. CRYNODEB / SUMMARY****Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, nid oes problemau wedi'u nodi. Cafwyd cyfuniad o swyddi gwag a chyllid grant ychwanegol sy'n arwain at amrywiad positif.

At this stage in the year there are no problem areas identified. There has been a combination of vacant posts and additional grant funding leading to an overall favourable variance.

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Rhagfyr 2022 Budget to December 2022 £'000	Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2022 Actuals to December 2022 £'000	Amrywiant hyd at Rhagfyr 2022 Variance to December 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/(over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (L, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Partneriaethau a Pherfformiad / Partnerships & Performance	950	707	594	113	110	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I / L
Diogelu'r Cyhoedd / Public Protection	1,266	972	935	37	25	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	C / M
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	124	93	61	32	35	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I / L
CYFANSWM / TOTAL	2,340	1,772	1,590	182	170		

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2022 / Budget Forecast Report December 2022

Porth Cymorth Cynnar

Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Elen James

1. CRYNODEB / SUMMARY

Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:

Nid yw lefelau incwm y Canolfannau Lles wedi dychwelyd hyd yma i'r hyn yr oeddent cyn COVID. Mae'r gwasanaeth wedi'i fwrw'n wael gan y cynnig cyflogau oherwydd ei staff ar raddfeydd cymharol isel ac mae hefyd yn gweld cynnydd yng nghostau cludo disgyblion. Mae cyllid grant ychwanegol yn helpu i sicrhau mantolen gyffredinol yn y gyllideb.

Income levels in the Wellbeing Centres are yet to recover to pre COVID levels. The service has been particularly badly affected by the APTC pay award and is experiencing an increase in the cost of pupil transport. Additional grant funding is helping to achieve an overall balance budget position.

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Rhagfyr 2022 Budget to December 2022 £'000	Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2022 Actuals to December 2022 £'000	Amrywiant hyd at Rhagfyr 2022 Variance to December 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/(over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (I, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Dysgu Gydol Oes a Sgiliau / Lifelong Learning & Skills	405	820	692	128	100	Mae cyllid grant ychwanegol yn helpu i sicrhau mantolen gyffredinol yn y gyllideb. Additional grant funding is helping to achieve an overall balance budget position.	I / L
Gwasanaethau Cymorth Cynnar / Early Intervention Services	835	1,191	1,174	17	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I / L
Uned Cyfeirio Disgyblion / Pupil Referral Unit	758	540	562	(22)	-	Mae'r cynnydd mewn prisiau ynni a thrafnidiaeth wedi effeithio ar yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Er hynny, mae dyraniadau yn cael eu gwneud o gronfeydd corfforaethol (£45k) i ddelio â hyn fel pwysau chwyddiant. The PRU has been badly affected by the price increase for energy and transport, although allocations are being made from corporate reserves (£45k) to deal with these as inflationary pressures.	C / M
Canolfannau Lles / Wellbeing Centres	1,254	1,092	1,081	11	(100)	Nid yw'r lefelau incwm hyd yma wedi dychwelyd i'r lefelau cyn COVID ac ar ddiwedd Chwarter 3, maent ychydig yn llai na £90k (35%) yn is na'r hyn a oedd wedi'i nodi yn y gyllideb. Serch hynny, mae'r sefyllfa wedi gwella ychydig ers Chwarter 2. Mae'r dyfarniad cyflog i staff gweinyddol, proffesiynol, technegol a chlerigol wedi cael effaith benodol ar y gwasanaeth hwn am fod nifer o'r swydd â graddfeydd cyflogau is. Bydd y cynnydd mewn prisiau ynni o fis Hydref ymlaen yn cael effaith negyddol ar gostau'r safleoedd. Bydd y cyllid wrth gefn corfforaethol yn cynorthwyo o ran yr incwm (£100k) a'r chwyddiant sy'n gysylltiedig ag ynni (£60k). Income levels have not yet returned to pre COVID levels and are just under £90k (35%) down on budget at Q3 stage, albeit the rate of shortfall has improved a little since Q2. The APTC pay award has impacted particularly on this service with its lower graded posts. The increase in energy prices from October will have a negative effect on premises costs. Corporate reserves funding will assist on Income (£100k) and Energy inflation (£60k).	U / H

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION							
Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Rhagfyr 2022 Budget to December 2022 £'000	Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2022 Actuals to December 2022 £'000	Amrywiant hyd at Rhagfyr 2022 Variance to December 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/(over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (L, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Gwasanaethau Cymorth ac Ymyrraeth / Support and Intervention Services	1,095	925	1,004	(79)	(25)	Mae'r cynnig cyflogau wedi bwrw'r gwasanaeth hwn oherwydd swyddi graddfa cymharol is. The APTC pay award has particularly impacted on this service with its comparably lower graded posts.	C / M
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	8	6	87	(81)	25	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	C / M
CYFANSWM / TOTAL	4,355	4,574	4,600	(26)	-		

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2022 / Budget Forecast Report December 2022

Porth Cynnal

Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Audrey Somerton-Edwards

1. CRYNODEB / SUMMARY

Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:

Mae'r Gwasanaeth yn rhagweld y bydd yn gorwario o £1.5m, a hynny ar ôl derbyn £1.166m o'r cronfeydd wrth gefn i atal costau uwch asiantaethau ac i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn costau allanol o ran lleoliadau Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl. Mae'r cynnig cyflogau wedi cael effaith anffafriol ar y rhagolwg. Mae'r gwasanaeth yn hynod anwadal ac mae'r rhagolygon yn seiliedig ar ymwymidiadau yr ydym yn gwybod amdanynt hyd yma. Hefyd, mae nifer sylweddol o amrywiannau o fewn y gwasanaeth. Ar hyn o bryd, ceir heriau gweithredol mewn nifer o feysydd, yn benodol o ran staffio a llwyth achosion.

The Service anticipates an overspend position of £1.5m, which is after assuming £1.166m from reserves to counteract increased agency costs and external Learning Disabilities & Mental Health Placement costs. The APTC pay award has had an adverse effect on the forecast. The service is highly volatile and this forecast is based on known commitments to date and there are a significant number of variances within the service. There are currently operational challenges in a number of areas particularly around staffing and caseloads.

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Rhagfyr 2022 Budget to December 2022 £'000	Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2022 Actuals to December 2022 £'000	Amrywiant hyd at Rhagfyr 2022 Variance to December 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/(over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (I, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Gofal wedi'i Gynllunio / Planned Care	12,391	9,515	10,481	(966)	(1,210)	Yn bennaf oherwydd gorwariant ar Gofal Preswyl pobl hyn o £776k oherwydd lleoliadau newydd, cynnydd yn CCY (Cyfraniad Cost Ychwanegol) a estynu cytundebau dros i 31/03/23. Gorwariant o £304k ar Plant sy'n derbyn Gofal oherwydd lleoliadau newydd dan gynnwys costau Plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches heb ei fodloni gan y grant yn llawn. Rhagwelir gorwariant o £109k ar Dalaiadau Uniongyrchol Pobl Hyn. Oherwydd swyddi gwag yn y tim mae £650k i'w ariannu drwy'r cronfeydd wrth gefn. Mae'r adolygiad o ffioedd Cartrefi Gofal Preswyl wedi dod i ben ac mae cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer hyn. Hefyd, mae pwysau sylweddol o ran staffio o fewn y tim. Mainly due to overspend of £776k on Older people residential care due to new placements, ACC (Additional Cost Contribution) increases and extension of temp contracts to 31/03/23. Overspend on LAC due to new placements including UASC costs not met in full by grant £304k. Overspend forecasted on OP Direct payments of £109k. Due to vacant posts in the team £650k agency costs to be funded through reserves. A review of Residential Care Home fees has concluded and a financial provision has been made for this. There are also significant staffing pressures within this team.	U / H
Cymorth Estynedig / Extended Support	11,277	8,656	8,938	(282)	(295)	Yn bennaf oherwydd rhagwelir gorwariant o £876k o ran gwelyau ym maes Anableddau Dysgu a hynny o achos y cynnydd mewn lleoliadau a'r strwythur ffioedd newydd. Rhagwelir gorwariant o £288k o ran y Tim Byw â Chymorth/cefnogaeth pwrpasol. Danwariant ar Dalaiadau Uniongyrchol oherwydd cynnydd yn adfachu a trosglwyddo £348k o'r cronfeydd wrth gefn. Mainly due to Learning Disability beds projected overspend of £876k due to a combination of an increase in placements and a new fee structure, Supported Living/bespoke Support overspend £288k, offset by underspends on Direct payments of £541k due to increase in clawback, transfer from reserves £348k.	U / H

Tudalen 192

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION							
Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Rhagfyr 2022 Budget to December 2022 £'000	Gwir variant hyd at Rhagfyr 2022 Actuals to December 2022 £'000	Amrywiant hyd at Rhagfyr 2022 Variance to December 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Ffiwyddyn tan/(gor) variant Year End Forecast under/(over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (L, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Lles Meddyliol / Mental Wellbeing	3,094	2,520	2,458	62	70	Yn bennaf oherwydd gorwariant ar welyau Iechyd Meddwl/All-Sirol (£219k) oherwydd lleoliadau newydd yn y cwarter (£168k i'w ariannu drwy'r cronfeydd wrth gefn), tanwariant ar staffio oherwydd GIR £73k Mainly due to overspend on Mental Health beds/Out of County (£219k) due to new placements in the quarter (£168k to be funded through reserves), underspends on the team due to RIF funding £73k	C / M
Diogelu / Safeguarding	831	623	663	(40)	(105)	Gorwariant oherwydd costau asiantiaeth heb ei rhagweld yn cwarter 2. Overspend due to agency costs not anticipated in Qtr 2.	C / M
Camddefnyddio Sylweddau / Substance Misuse	568	423	262	161	187	Tanwariant ar Gyfiawnder Ieuencid (£89k) ac IFSS /Ymyl Gofal (£98k). Underspends on Youth Justice (£89k) and IFSS/Edge of Care (£98k).	C / M
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	441	335	408	(73)	(132)	Gorwariant oherwydd costau asiantiaeth. Overspend due to agency costs.	C / M
CYFANSWM / TOTAL	28,602	22,072	23,210	(1,138)	(1,485)		

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2022 / Budget Forecast Report December 2022

Porth Gofal

Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Donna Pritchard

1. CRYNODEB / SUMMARY

Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:

Mae'r gwasanaeth yn rhagweld gorwariant o £41k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn lleihad o'r gorwariant o £318k a rhagwelwyd ar ddiwedd Cwarter 2, y prif resymau am hyn yw incwm grant ychwanegol ym Mis Ionawr 2023 (£182k). Ar hyn o bryd mae heriau gweithredol mewn nifer o feysydd yn enwedig Cartrefi Preswyl a Gofal Cartref a swyddi gwag yn cael ei llenwi gan staff asiantaeth.

The Service anticipates an overspend by year end of £41k. This is a reduction from the forecast overspend of £318k at Q2 primarily due to additional grant income being awarded in January 2023 (£182k). There are currently operational challenges in a number of areas particularly Residential Homes and Home Care and vacant posts being covered by agency staff.

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Rhagfyr 2022 Budget to December 2022 £'000	Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2022 Actuals to December 2022 £'000	Amrywiant hyd at Rhagfyr 2022 Variance to December 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/(over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (I, C neu U) Level of risk (L, M or H)
